**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL

# STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00 p.m. DYDD MERCHER, 20 CHWEFROR 2013**

**2.00 p.m. WEDNESDAY, 20 FEBRUARY 2013**

Lleoliad / Location

**Siambr Arfon**

**Swyddfa Ardal Arfon**

**Penrallt**

**CAERNARFON**

**Nodwch y lleoliad, o.g.y.dd. / Please note the venue**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 12.02.13

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL**
**STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION**

## AELODAETH / MEMBERSHIP (7)

### Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Huw Edwards
Selwyn Griffiths
Gareth Thomas

**Annibynnol / Independent (2)**

Y Cynghorwyr / Counillors

Tom Ellis
Jean Forsyth

**Llais Gwynedd (2)**

John Brynmor Hughes
Louise Hughes

**Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members –**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-Chairman of the Council –
Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

## Cristnogion a Chrefyddau Eraill / Christians and Other Religions

Yr Eglwys Fethodistaidd / Methodist Church - Mr Wyn Myles Meredith
Undeb Bedyddwyr Cymru / Union of Welsh Baptists - Mrs Ruth Davies
Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Presbyterian Church of Wales - Parch. / Rev. Deian Evans
Yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales - Parch. / Rev. Robert Townsend
Yr Annibynnwyr / The Independents – Mr Cynrig Hughes
Yr Eglwys Gatholig / Catholic Church - Mrs Eirian Bradley Roberts

## Athrawon / Teachers

| | | |
|---|---|---|
| ASCL | - | Mrs Alwen Watkin |
| UCAC | - | Mr Noel Dyer |
| NAS/UWT | - | Mrs Miriam Angharad Amlyn |
| NUT | - | Mr Euron Hughes |
| ATL | - | Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination |
| NAHT | - | Mrs Lisabeth Roberts |

## Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Y Parch. Aled Davies

## RHAGLEN

1. **GWEDDI**

2. **YMDDIHEURIADAU**

   I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2012.

   (Copi yn amgaeëdig - Papur Gwyn)

5. **MATERION BRYS**

   I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. **HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION**

   I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

   (i) Ysgol Abercaseg
   (ii) Ysgol Abererch
   (iii) Ysgol Borth y Gest
   (iv) Ysgol Felinwnda
   (v) Ysgol Llandygai
   (vi) Ysgol y Foelgron
   (vii) Ysgol Tudweiliog

   (Copi'n amgaeedig – Papur Hufen)

7. **YMATEB AC ARWEINIAD CYSAG**

   (a) I dderbyn adroddiad llafar gan y Gwasanaeth Ymgynghorol.
   (b) HMS Cymdeithas CYSAGau Cymru: Asesiadau Athrawon CA3
   (c) Goblygiadau diwedd gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL. Sut all CYSAG gyflawni ei dyletswyddau yn y dyfodol?

8. **AROLWG CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU o GYSAGau Cymru – Mehefin 2012**

   I ystyried adroddiad ar arolwg Cymdeithas CYSAGau Cymru o CYSAGau yng Nghymru.

   (Copi'n amgaeedig – Papur Pinc)

9. **CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

(a) I dderbyn cofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2012 ym Mherthyr Tydful.

(Copi'n amgaeedig – Papur Gwyrdd)

(b) I nodi'r canlynol:

- Y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 22 Mawrth 2013 yng Nghasnewydd.
- Cynhadledd Arfaethedig Cymdeithas CYSAGau Cymru – 10 Hydref 2013
- Y cynhelir cyfarfod Haf 2013 Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 19 Mehefin 2013 yng Nghaernarfon

(c) I drafod cynnig enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CYSAGau Cymru.

(Copi'n amgaeedig – Papur Melyn)

10. **ADRODDIAD BLYNYDDOL GWYNEDD 2011/12**

I dderbyn, er gwybodaeth, gopi terfynol o adroddiad blynyddol CYSAG Gwynedd.

(Copi i'w ddosbarthu yn y cyfarfod)

11. **GOHEBIAETH**

I dderbyn, er gwybodaeth, copi o Newyddion Addysg Grefyddol (Gaeaf 2012).

(Copi i'w ddosbarthu yn y cyfarfod)

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 24/10/12

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Gareth Thomas – Is-gadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Jean Forsyth, John Brynmor Hughes.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr), Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Huw Edwards, Selwyn Griffiths, Louise Hughes), Mrs Alwen Watkins (ASCL), Parchedig Deian Evans (Eglwys Bresbyteraidd Cymru).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Noel Dyer.

**2. DYMUNIADAU GORAU**

Nododd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gareth Thomas, bod y Cynghorwyr Huw Edwards a Selwyn Griffiths yn mynd drwy gyfnod o anhwylder ar hyn o bryd a dymunwyd y gorau iddynt am adferiad llwyr a buan.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2012 fel rhai cywir.

**5. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION**

**Cyflwynwyd:**

**(A) Copi enghreifftiol yn nodi gofynion hunan arfarniad Addysg Grefyddol**

Atgoffodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau nad oedd y drefn Arolygu ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mabwysiadwyd trefn gan CYSAG Gwynedd, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol o fonitro safonau ysgolion,

drwy ofyn i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i'w sylw yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Nodwyd mai un o'r heriau mwyaf i ysgolion ydoedd bod yn arfarniadol ac yn feintiol yn yr hunan arfarniadau.

Cyfeiriwyd at y copi engreifftiol o ffurflen hunan arfarniad a thywyswyd yr Aelodau drwy'r tri chwestiwn allweddol fel a ganlyn:

**(a) Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?**

O fewn y cwestiwn uchod, tynnwyd sylw at yr ieithwedd a'r math o eirfa y gall Benaethiaid ddefnyddio i gwblhau'r hunan arfarniad megis **rhan fwyaf** a olygai 70% o'r disgyblion gyda **mwyafrif** yn golygu 60%. Anogir a disgwylir i ysgolion ddod i benderfyniad ar safonau drwy nodi rhagorol, da, digonol neu anfoddhaol. O safbwynt rhagorol, pwysleisiwyd y disgwylir i safonau gyrraedd gofynion uchel iawn ac yn fodd i arwain y sector a derbyn scrwtini cenedlaethol.

**(b) Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

O safbwynt y cwestiwn hwn, gofynnir i ysgolion roi sylw i'r hyn a wneir ar lawr y dosbarth ac anogir athrawon i ddangos bod yr arferion da yn digwydd yn rheolaidd.

**(c) Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Nodwyd, ers oddeutu tair blynedd bellach, bod ffocws y cwestiwn uchod yn edrych ar safonau addoli ar y cyd. Nodwyd pwysigrwydd i Aelodau ddeall y gwahaniaeth rhwng gwers Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Nid pwrpas na bwriad gwers Addysg Grefyddol yw cyflwyno crefydd i blant ond yn hytrach dylai'r wers fod yn wrthrychol. Eglurwyd bod addoli ar y cyd yn wahanol lle ceir cyflwyno crefydd i blant mewn gwasanaeth ac fe rydd yr hawl i rieni eithrio eu plant o wasanaethau addoli ar y cyd, pe dymunent. Ar y cyfan yng Ngwynedd mae mwyafrif o rieni yn eitha' hapus bod eu plant yn cael gwersi Addysg Grefyddol.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau gyflwyno sylwadau ac fe longyfarchwyd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar gynnwys y ffurflen engreifftiol a'i fod o fudd i'r Aelodau. Nodwyd yn ychwanegol y byddai'n werth i ysgolion dderbyn ffurflen engreifftiol o'r hyn a ddisgwylir i gyrraedd safon ragorol o ystyried bod oddeutu 99% ohonynt yn nodi safon dda.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y ffurflen hunan arfarniad engreifftiol.**

**(B) Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:**

Tywysodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau isod gan nodi bod 7 ysgol wedi ymateb i'w gais i gyflwyno hunan arfarniadau yn dilyn arolygiadau diweddar.

**(i) Ysgol Aberdyfi**

Nodwyd y lleolir yr ysgol uchod yn Ne'r Sir mewn ardal Seisnig ei naws a'i bod wedi profi problemau staffio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ac yn sgil ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir ansicrwydd o ddyfodol i'r ysgol. Derbyniwyd hunan arfarniad cynhwysfawr iawn yn nodi bod safonau, darpariaeth ac addoli ar y cyd yn dda gyda'r ysgol yn weithredol yn y

gymuned ehangach. Nodwyd bod 20 o blant yn yr ysgol gyda'r Pennaeth wedi nodi'n onest bod angen rhoi sylw i 2 / 3 elfen yn ystod y flwyddyn nesaf. Nodwyd ymhellach bod yr ysgol yn rhoi pwyslais i blant lunio meini prawf eu hunain.

**(ii) Ysgol Santes Helen**

Nodwyd mai Ysgol Gatholig yng Nghaernarfon yw'r ysgol uchod ac er bod 20% o'r plant o gefndiroedd lle mae'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol roedd nifer ohonynt yn cyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. O safbwynt cwestiwn allweddol 2 nodwyd bod plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn derbyn gwaith gwahaniaethol. Nodwyd bod addoli ar y cyd yn derbyn sylw haeddiannol ar gyfer gwasanaethau'r ysgol mewn cynllun yn seiliedig ar y flwyddyn litwrgaidd, dyddiau seintiau a chyfnodau arbennig sef y Grawys a'r Adfent.

**(iii) Ysgol Maesincla**

Nodwyd bod yr ysgol uchod ymysg y rhai mwyaf ei maint yng Ngwynedd. Profwyd sefyllfa anodd iawn i'r ysgol oherwydd absenoldeb hir dymor y Pennaeth ond prysurwyd i nodi bod y Dirprwy wedi bod yn ymgymryd â'r dyletswyddau yn effeithiol dros ben. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, wrth gyfweld â disgyblion nodwyd bod elfen ragorol o sut mae Iesu yn ganolbwynt yr addoli, a gwelir pa mor effeithiol yw hyn trwy wrando ar ddisgyblion yn enwedig y rhai ifanc - yn siarad am yr Iesu. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau a dulliau addysgu megis medrau meddwl. O safbwynt addoli ar y cyd, noda'r Arolwg diweddar fod "addoli yn gyffroes, yn hanfod bywyd yr ysgol ac yn cyffwrdd calonnau'r disgyblion".

**(iv) Ysgol Llanystumdwy**

Nodwyd mai ysgol yr Eglwys yng Nghymru yw'r uchod ac fe noda'r hunan arfarniad nifer o nodweddion da a gwerthoedd Cristnogol ym mywyd yr ysgol. Rhoddir cryn bwyslais ar elfennau trawsgwricwlaidd wrth addysgu Addysg Grefyddol ac fe gryfheir y cwricwlwm a chymeriad Cristnogol yr ysgol trwy gydweithio'n agos gyda'r ficer lleol. O safbwynt addoli ar y cyd, nodir bod defnydd o ddistawrwydd yn y gwasanaethau yn wych, ac yn hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion.

**(v) Ysgol Llandwrog**

Nodwyd mai ysgol fechan Eglwysig yw'r ysgol uchod gydag elfen gymdeithasol gryf iawn. Cyfeirir at yr ysgol fel teulu estynedig lle rhoddir blaenoriaeth i ethos Cristnogol yn ddyddiol. O safbwynt cwestiwn allweddol 2, nodwyd bod yr ysgol yn gweithio'n agos gyda Rheithor y Plwyf i amlygu amserlen y flwyddyn Gristnogol i waith yr ysgol. Cynhelir addoli ar y cyd yn yr ysgol dair gwaith yr wythnos a bod ethos Anglicanaidd i'r addoli drwy ddefnydd o ganhwyllau, darlleniadau o'r Beibl a gweddïau.

**(vi) Ysgol Morfa Nefyn**

Ysgol Babanod yw'r uchod sydd yn ysgol eitha' blaengar mewn sawl ffordd. Cyfeiriwyd at astudiaeth crefydd yr Iddew drwy thema'r Aifft gan Flwyddyn 2 a 3. Nodwyd bod y disgyblion yn gyfarwydd â straeon o'r Beibl ac yn mwynhau dramateiddio'r straeon. Tynnwyd sylw bod yr hunan arfarniad yn nodi rhagorol yng nghyswllt addoli ar y cyd ac fe all Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG ardystio hyn o ystyried bod yr awdurdod addysg yn defnyddio'r ysgol hon yn aml fel esiampl sy'n meddu ar arferion da.

### (vii) Ysgol Eifionydd

Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod natur hunan arfarniadau Ysgolion Uwchradd yn wahanol oherwydd bod ganddynt ddata o asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 3 ac arholiadau allanol Cyfnod Allweddol 4 i'w cynnwys. Atgoffwyd yr Aelodau bod pob disgybl yn astudio Addysg Grefyddol mewn ysgol uwchradd yng Nghyfnodau Allweddol 3,4, 5 (os yn ysgol gyda 6ed dosbarth). Ond nodwyd bod dewis gan ddisgyblion pan yn 14 oed i astudio cwrs arholiad mewn astudiaethau crefyddol. Yn y gorffennol roedd CYSAG wedi bod yn edrych ar asesiadau athrawon yn CA3 ond yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gofynnwyd i athrawon gyflwyno portffolio o asesiadau dosbarth i gymedrolwyr allanol CBAC. Roedd y broses hon wedi dod i ben a bod dealltwriaeth genedlaethol bellach ar gyfer lefel cyrhaeddiad i Gyfnod Allweddol 3. O fewn hunan arfarniad Ysgol Eifionydd cyfeiriwyd at berfformiad bechgyn a merched ac fe welwyd eu bod yn cyflawni'r trothwy o lefel 5 ond eu bod yn gosod cyfeiriad i'w gynyddu i lefel 6. Llongyfarchir yr ysgol am ganlyniadau TGAU ac fe welwyd bod perfformiad bechgyn yn dda.

Nodwyd bod yr ysgol yn ymwybodol o'r gofyn statudol i gynnal addoli ar y cyd yn ddyddiol rhywbryd yn ystod y dydd mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ynglŷn â'r hunan arfarniadau ac fe amlygwyd y sylwadau canlynol:

(a) mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â disgwyliadau ysgolion ffydd, eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yng nghyswllt Ysgolion Maesincla, Llanystumdwy a Llandwrog eu bod yn derbyn cefnogaeth oddi wrth yr awdurdod addysg a'r Eglwys yng Nghymru. Roedd yn ymwybodol bod Pennaeth Ysgol Santes Helen yn dilyn cynllun gwaith engreifftiol yr Eglwys Gatholig.

(b) Ychwanegodd y Parchedig Robert Townsend o safbwynt yr ysgolion Eglwys eu bod wedi paratoi ffurflen hunan arfarnu eu hunain fel ysgolion Eglwys ac yn derbyn Arolwg ysgol gan yr Eglwys yng Nghymru ar wahân i ESTYN yn unol â gofynion Adran 50 o'r Ddeddf Addysg 2005 ac yn edrych ar wahanol agweddau o fywyd ysgol fel ysgol Eglwys megis addoli, cymeriad ysgol fel ysgol Eglwys a sut mae addysg grefyddol yn cyfrannu at gymeriad Cristnogol yr ysgol.

Yn y gorffennol, derbynia CYSAG arolygiadau'r Eglwys yng Nghymru ac y byddai'n fuddiol i'r dyfodol i dderbyn hunan arfarniadau a ddarperir gan ysgolion i'r Eglwys yng Nghymru yn ogystal.

(c) I gloi, nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod cryn waith i'w gyflawni eto yng nghyswllt yr hunan arfarniadau ysgolion cynradd i annog athrawon i ddatblygu'r sgiliau Addysg Grefyddol sef ymdrin â chwestiynau sylfaenol, archwilio credoau dysgeidiaeth ac arferion crefyddol a mynegi ymatebion personol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2011-12

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2011-12, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau, bod yr adroddiad yn grynhoad o weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn flaenorol o Fedi 2011 hyd Awst 2012, a'i fod gerbron yr aelodau , er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi barn ar yr adroddiad drafft cyn cyflwyno adroddiad terfynol i Adran Addysg y Cynulliad a sefydliadau eraill.

Eglurwyd mai swyddogaeth CYSAG oedd cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, a'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio at y dulliau a ddefnyddir i roi sylw cyson i fonitro safonau Addysg Grefyddol, trwy adolygu hunan arfarniadau ysgolion yng nghyd-destun y tri chwestiwn allweddol ynghyd â monitro canlyniadau arholiadau.

Cyfeiriwyd at ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd gan nodi bod pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac fel rhan o'r drefn hunan arfarnu fe ofynnir i athrawon am eu barn ar safon addoli ar y cyd. Ceisir adnabod negeseuon sy'n gyffredin mewn ysgolion ynglŷn â'r ddarpariaeth a deilliannau a / neu negeseuon sy'n benodol i ysgol.

Esboniwyd mai canlyniadau addysg grefyddol y llynedd a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac fe drafodwyd y canlyniadau hyn gan CYSAG ym mis Hydref 2011. Cyfeiriwyd yn benodol at ganlyniadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Addysg Grefyddol 2011 gan nodi ei bod yn anoddach y dyddiau hyn i roi barn ar ganlyniadau allanol a chael darlun teg o'r patrwm oherwydd bod disgyblion yn ymgymryd ag amrywiol gyrsiau ar gyfnodau gwahanol o'u bywydau rhwng blwyddyn 10 a blwyddyn 13. Roedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau o'r farn mai annheg fyddai cyflwyno canlyniadau addysg grefyddol mewn dogfen gyhoeddus hyd nes derbynnir cymhariaeth deg o berfformiad disgyblion mewn pynciau eraill hefyd.

Crynhowyd gwaith y gwasanaeth ymgynghorol ym maes Addysg Grefyddol ac amlinellwyd y cyrsiau a gynigiwyd o dan raglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd yr Awdurdod. Noda'r adroddiad gysylltiad gyda APADGOS.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol gwnaed y sylwadau canlynol:

(a) byddai'n fuddiol dangos y trend ynglyn â chanlyniadau bechgyn a merched dros ddwy neu dair blynedd i'r dyfodol.
(b) Y dylid esbonio paham bod cynnydd yn y canran sydd yn cwblhau TGAU cwrs llawn yn 2011.
(c) Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau parthed Cyfnod Allweddol 3 (disgyblion 11 – 14 oed) y cyflwynir asesiadau athrawon i'r Cynulliad ac fe'u rhestrir mewn teuluoedd. Oherwydd bod addysg grefyddol yn cael ei reoli yn lleol nodwyd nad oedd y canlyniadau yn cael eu casglu'n genedlaethol.

**PENDERFYNWYD derbyn gyda diolch Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG ar gyfer 2011-12.**

**7. ADRODDIAD Y GWASANAETH YMGYNGHOROL**

**Cyflwynwyd:**

**(i) Adroddiad gan Brif Gymedrolwr Asesiadau Athrawon**

Eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod Adrannau Uwchradd wedi cyflwyno sampl o waith disgyblion i brofi i Gymedrolwyr allanol bod dealltwriaeth gan yr Adrannau o Lefel 4, 5, 6 a 7. Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Prif Gymedrolwr a thynnwyd sylw'r Aelodau at y gofynion. Gwelwyd bod rhai ysgolion a gyflwynwyd sampl o waith wedi eu

cymeradwyo, rhai eraill gyda'r Prif Gymedrolwr yn awgrymu edrych ymhellach ar faterion penodol ac ambell ysgol heb gyflwyno tystiolaeth oherwydd rhesymau dilys megis gwaeledd tymor hir.

Trafodwyd opsiynau ar gyfer cynorthwyo'r ysgolion a oedd angen cymorth ychwanegol a daethpwyd i farn bod CYSAG yn cyflwyno cais i'r Ymgynghorydd Dyniaethau ymweld â'r ysgolion perthnasol.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Ymgynghorydd Dyniaethau ymweld ag ysgolion i gynnig cymorth ychwanegol i'r athrawon ar faterion sydd angen sylw penodol.**

**(ii)** Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod ganlyniadau TGAU. Nodwyd bod:

- y canlyniadau'n dda gyda 10 ysgol yn cyflwyno disgyblion i sefyll arholiad TGAU.
- 41.9% o'r disgyblion yn derbyn graddau A* / A.
- y blwch rhwng bechgyn a merched yn lleihau.
- 80.5% o ymgeisiwyr yn ennill cymhwyster lefel 2 (A* - C)
- Canran o fechgyn a merched a dderbyniodd cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 wedi cynyddu'n raddol ers 2011.

Nodwyd mai'r her ydoedd sicrhau bod mwy o Adrannau yn cynnig y cwrs i ddisgyblion ond yn yr hinsawdd bresennol lle mae staff yn brin a niferoedd disgyblion yn lleihau rhagwelir bod hyn yn dasg anodd.

Yn ystod y drafodaeth ddilyn amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Ei bod yn bwysig i CYSAG geisio rhoi cefnogaeth i staff mewn Adrannau o ystyried bod Addysg Grefyddol yn holl bwysig ac ni ddylid ei dorri'n gyntaf oherwydd nad yw yn bwnc craidd

(b) Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod rhaid i'r pwnc fod yn hyfyw ac oherwydd bod poblogaeth rhai ysgolion wedi dirywio, efallai mewn ambell sefyllfa y ceir dim ond 3 disgybl yn dewis gwneud TGAU mewn Addysg Grefyddol ac felly byddai'n ofynnol gwneud trefniadau gydag ysgol arall cyfagos i fedru cynnig y cwrs iddynt.

(c) Esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'r tablau i'r Aelodau gan nodi ar y cyfan bod y canrannau yn eithaf cadarn ac roedd yr ysgolion hynny a ddynodwyd C(m) yn ymwybodol o'r hyn sydd i'w gyflawni. Ychwanegwyd nad oedd y proses wedi bod yn hawdd i Adrannau oherwydd dyma'r cylch cyntaf i Adrannau ddod i delerau gyda'r gofyn i weinyddu ar lefel cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd wedi bod yn broses defnyddiol ac wedi gwneud lles i'r gymuned Addysg Grefyddol o ran gofynion y pwnc er mwyn datblygu disgyblion i feddwl yn athronyddol yn hytrach na disgrifiadol.

(ch) Nododd Aelod nad oedd y tablau a gyflwynwyd yn rhoi cyfle i gymharu safon ysgol ag ysgol arall yn allanol ac nad oedd cymhariaeth o sgôr gyfartaledd Gwynedd gydag ysgolion eraill.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys y canlyniadau.**

**8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

Cyflwynwyd i’r Aelodau gofnodion drafft o gyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2012 ynn Nghyffordd Llandudno.

(a) Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y cofnodion er gwybodaeth ac egluro, yn dilyn sylw gan Aelod mai yn Saesneg yn unig a gyflwynwyd y cofnodion, y byddai’r cofnodion terfynol yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog i gyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 23 Tachwedd ym Merthyr Tudful.

(b) Nodwyd bod ESTYN, yn dilyn trafodaeth ddiweddar gyda Chymdeithas CYSAGau Cymru, wedi cytuno i ddarparu adroddiadau thematig o bynciau penodol yn y cwricwlwm ac un nesaf fydd Addysg Grefyddol gan ganolbwyntio ar Gyfnodau Allweddol 3 a 4. Fe fydd ESTYN yn paratoi holiadur yn ogystal ag ymweld ag ysgolion ar draws Cymru.

(c) Apeliwyd ar unrhyw Aelod i fynychu cyfarfodydd o Gymdeithas CYSAGau Cymru i gynrychioli Aelodau etholedig gan fod Mr Wyn Meredith yn cynrychioli’r sector crefyddol.

**PENDERFYNWYD : (a) Derbyn a nodi, er gwybodaeth, cynnwys cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2012 yng Nghyffordd Llandudno.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf CYSAGau Cymru ar 23 Tachwedd 2012 ym Merthyr Tydfil.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 4.00 pm

**CADEIRYDD**

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Abercaseg**

## Addysg Grefyddol

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae datblygiad ysbrydol,personol,cymdeithasol a moesol y disgyblion yn rhagorol gyda'r ymdriniaeth o'r agweddau yma o fewn gweithgareddau dosbarth a gwasanaethau ysgol yn cyfrannu at hyn.
- Mae'r ysgol yn gymuned glos sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb ymhob agwedd o fywyd ysgol ac o fewn y gymuned ehangach.Caiff y plant eu meithrin i feddu ar werthoedd megis pryder neu gonsyrn am eraill, parch a gofal, a'u hannog i gymryd cyfrifoldebau drwy ein cynlluniau a'n gweithgareddau dyddiol.
- Trwy wasanaethau ysgol ,gweithgareddau dosbarth a sesiynau 'amser cylch' caiff y plant eu meithrin i fod yn gyfeillgar â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Maent hefyd yn gofalu am ei gilydd ac yn barod i drafod teimladau ,ynghyd â deall sut y gall ymateb yn briodol i rai sefyllfaoedd osgoi achosion o wrthdaro. Mae bron pawb ohonynt yn cyd-dynnu'n rhagorol â'r athrawon ac aelodau eraill o'r staff ac maent yn dangos parch hefyd tuag at adeilad ac adnoddau'r ysgol.Mae'r disgyblion yn arbennig o gwrtais hefo ymwelwyr yn yr ysgol a phan fyddent yn mynd ar ymweliadau byddent bob amser yn dangos cwrteisi at eraill ac yn ymddwyn yn rhagorol.

**Materion i gael sylw**

| Rhagorol | √ | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r pwyslais amlwg a roddir ar addysgu am grefyddau a moesoldeb yn paratoi'r disgyblion yn dda iawn ar gyfer dod yn aelodau cyfrifol o'r gymuned.
- Cyfoethogir profiadau plant drwy gyfuniad da o ymwelwyr yn ymweld â'r ysgol ee.y ficer,cynrychiolwyr o elusennau amrywiol ac ymweliadau amrywiol sy'n arwain at ddarparu gweithgareddau dysgu cyfoethog a chryfhau eu dealltwriaeth o rolau a phwysigrwydd gwahanol unigolion o fewn y gymdeithas.
- Mae gan yr ysgol bethynas dda iawn gydag asiantaethau a sefydliadau allanol. Mae'r cyd-weithio gydag elusennau megis Antur Waunfawr, UNICEF,Masnach Deg,Operation Christmas Child a Thŷ Gobaith yn datblygu dealltwriaeth a goddefgarwch y dysgwyr .Mae'r ysgol wedi creu cyswllt,drwy'r Cyngor Prydeinig, ag ysgol yn Delhi ac ysgol yn Uganda gyda phrosiectau/themau ysgol gyfan wedi eu dilyn ar y gwledydd gyda'r plant yn dod yn ymwybodol o grefyddau eraill.
- Caiff agweddau dyngarol eu meithrin yn y plant drwy wasanaethau a phrosiectau hyrwyddo ac mae'r ysgol wedi hachredu yn 'Ysgol Fasnach Deg'.Dros y blynyddoedd diwethaf,mae'r plant,drwy nifer o weithgareddau,wedi casglu arian sylweddol tuag at achosion dyngarol o'u dewis
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda. Mae naws ysbrydol a chefnogol i'n gwasanaethau a chyfnodau cyd-addoli ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy drafod cwestiynau sydd yn ymwneud â moesoldeb ac mae eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o arferion a storïau Cristnogol a'u gwybodaeth am gredoau neu grefyddau eraill yn datblygu'n dda.
- Mae'r cynllun ABaCh ynghyd â'r amser cylch a chyfnodau cyd-addoli a gwasanaethau yn arwain at ethos goddefgar,parch at eraill , cydraddoldeb a gwerthfawrogiad o amrywiaeth.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | √ | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | | **Ydy** | **Nac ydy** | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Cynhelir gwasanaeth ysgol ddwy waith yr wythnos a gwasanaethau dosbarth dair gwaith ynghyd â cyfnod wythnosol o canu emynau a chaneuon crefyddol.<br>Bydd y ficer yn cynnal gwasanaethau yn yr ysgol yn fisol gyda'r plant hefyd yn mynychu gwasanaethau yn yr eglwys a'r capel lleol. | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | √ | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: SHThomas (Pennaeth)

Dyddiad: 11/9/12

**Enw'r Ysgol: YSGOL ABERERCH 6612008**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- **Dealltwriaeth dda o gredoau ac arferion crefydd arall-e.e. Iddewiaeth.**
- **Disgyblion Cyfnod Sylfaen gyda dealltwriaeth gynyddol o grefyddau eraill.**
- **Disgyblion yn gallu trafod yn aeddfed – mynegi barn,teimladau gan ddefnyddio geirfa briodol.**
- **Y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y dysgu- datblygiad amlwg i weld yn nealltwriaeth a gwaith ysgrifenedig y disgyblion.**

**Materion i gael sylw**

- **Buasai cael arteffactau go iawn(yn hytrach na lluniau) yn cyfaethogi'r dysgu ac yn debygol o wneud y disgyblion gofio yn well.**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Rhoddir amser penodol ar amserlen yr ysgol i ddysgu addysg grefyddol bob wythnos.
- Cyflogwyd athrawes sydd a phrofiad helaeth o ddysgu a chyd-lynnu addysg grefyddol i ddysgu'r pwnc drwy'r ysgol.
- Mae'r gweithgareddau a gynllunir yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a medrau allweddol yn dda.
- Ymdrin,archwilio a mynegi ymateb personol yn cael sylw cytbwys bob tymor.

**Materion i gael sylw**

- Dim

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Awyrgylch myfyriol yn y gwasanaethau.
- Cyfleoedd mynych i blant gyfrannu.
- Gwasanaethau yn ymdrin ag amrywiaeth eang ac amrywiol a feysydd.
- Y plant meithrin a derbyn yn addoli ar y cyd ac yn cael cyfle i weddio byrfyfyr.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
**Dim**

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

**Enw'r Ysgol: Borth-y-Gest**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:**Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae'r plant yndangossafonau dayneuhymwybyddiaethysbrydol a moesol. Maentyncyfrannu'neffeithiol ac ynbwrpasol, ganddangos parch at eigilydd ac eraill.

Mae'rholldisgyblionyncyd-dynnu'nddaâ'igilydd ac maesafonauymddygiadynuchel. Maentigydyngwrtais ac ynparchueigilydd.

Mae'r plant yn datblygu eu dealltwriaeth o gyfrifoldeb byd eang drwy gasglu at elusennau ac maent wedi 'mabwysiadu' plentyn o India, ac yn cyfrannu £15 y mis tuag ato ef a'i gymuned. Mae'rysgolynhelbocsys*Operation Christmas Child* ynflynyddol – yncasglumwy o focsysnanifer y plant ynyrysgol bob blwyddyn.

Mae drwywers a thrafodaethau am drychinebaubydeang, mae'rdisgyblionyntrafodcyfiawnder a thegwchyneffeithiol.

Yn y sesiynauaddoliadtorfolwythnosol, mae'r plant ynmyfyrio ac yngweddioo'rfrestganddangosempathi, goddefgarwch a chonsyrn am eraill.

Mae ganddyntwerthfawrogiad da o gredoauueraillynogystal â Christnogaeth.

Mae'rysgolynllwyddoibaratoidisgyblionsy'ncyflawni'ndda ac amlygirhyntrwyeuhymddygiad a'uboneddigeiddrwydd.

**Materion i gael sylw**

Parhau i ddatblygu gwybodaeth am grefyddau gwahanol gan ganolbwyntio am ddysgu am negeseuon crefyddau ar sut i fyw yn dda.

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:**Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Rydym yn cynllunio'n addas ar gyfer y pwnc. Caiff y gwersi eu cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb a chynnig ystod o brofiadau a gweithgareddau gwerthfawr a diddorol. Mae cynlluniau'r athrawon wedi'u cynllunio'n fanwl a'u diffinio ar gyfer medrau cyfathrebu, rhifedd, meddwl a TGCh. Mae' pwnc yn cael ei amserlennu'n addas yn yr ysgol.

Defnyddir nifer o strategaethau addysgu amrywiol wrth addysgu Addysg Grefyddol i gymell diddordeb y disgyblion ac mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol gan ddangos boddhad. Cyfoethogir profiadau plant trwy gyfuniad o waith da ar ac oddi ar y safle trwy ymweliadau amrywiol a gweithgareddau allgyrsiol.

Gwneir defnydd cyson o Asesu ar gyfer Dysgu i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae strategaethau AaGD wedi cael sylw fel un o brif flaenoriaethau'r CDY. Mae'r plant hyn wedi datblygu i bennu eu m.p.ll. eu hunain i dasgau. Mae'r plant i gyd, gan gynnwys y rhai yn y CS yn adfyfyrio ar ddiwedd tasgau ffocws gan ddadansoddi os ydynt wedi llwyddo yn eu tasg.

Mae AddysgGrefyddolfelpwncynsicrhau bod cwricwlwmcyfanyrysgolyncaeleigyfoethogi – drwyaddysgu am Ddaearyddiaethyn y newyddion ac am enwogionmeig Martin Luther King a Ghandi.

**Materion i gael sylw**

Sicrhau digon o adnoddau ac artiffactau i addysgu'r plant am greodau ac arferion eraill.
Parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu Addysg Grefyddol yn drawsgwricwlaidd.

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:**Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Defnyddirystodeang o strategaethauynystodgwasnaethauboreolihybudatblygiadysbrydol y disgyblion. Mewn sesiynauaddoliar y cydrhoddirrhanweithredoli'r plant a'uhannogifyfyrio, a dodynddigonhyderusiweddio'nsymlo'rfrest.

Gwahoddir aelodau o'r gymuned yn rheolaidd i roi gwasanaethau crefyddol i'r plant – e.e. y Tad Dylan a Nia o Coleg y Bala.

Rydym yn sicrhau bod agweddau moesol, yn ogystal ac ysbrydol, yn rhan o'r gwasanaethau. Rhoddir sylw i ddigwyddiadau/trychinebau byd-eang mewn gwasanaethau ac mewn gwersi i ddatblygu empathi tuag at eraill.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Gwell strythur i'r cyfnodau addoli yn y dosbarthiadau.
Mwy o ganu crefyddol (emynau a.y.y.b.) yn y sesiynnau addoli torfol.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: *E. Rhys Williams* (Pennaeth)

Dyddiad: 14.01.2013

**Enw'r Ysgol: FELINWNDA**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

•Mewn gwersi addysg grefyddol a gwaith ABaCh, rhoir digon o gyfleoedd i'r disgyblion i ddod yn ymwybodol o wahaniaethau o fewn y gymdeithas. Bydd amrywiaeth eang o ymwelwyr yn dod i'r ysgol yn rheolaidd i ddatblygu a chryfhau eu dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach e.e nyrs, dyn tân, plismones, criw diogelwch y ffordd, Carys Ofalus.

•Dengys canlyniadau holiaduron plant eu bod yn teimlo yn saff yn yr ysgol a'u bod yn gwybod fod yna rhywun I wrando are eu problemau.

•Yn yr un modd dengys holiaduron y rhieni yr un math ganlyniad a theimlwn fel ysgol fod ganddom berthynas iach a chryf gyda'r teuluoedd.

**Materion i gael sylw**

•Sicrhau fod yr agwedd o ofal a llais y plentyn yn amlwg yn holiaduron y dyfodol.

•Angen sicrhau fod y plant yn cael mwy o gyfleon i ymweld a mannau crefyddol

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

•Rhoddir cyfleoedd yn ein cynlluniau addysg grefyddol iddynt edrych ar gwestiynau mawr bywyd, i gymharu a rhyfeddu, i ddeall arferion a phwysigrwydd credoau eraill, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr, i ddeall eu rol yn nyfodol ein byd fel dinasyddion y dyfodol. Rhoddir bwyslais ar ddatblygu unigolion sy'n meddwl am eraill ac yn barod i chwarae eu rhan boed yn yr ysgol neu thu allan.

•Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn ymgyrraedd a deilliant 5 neu 6 yn y maes Datblygiad Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol erbyn diwedd blwyddyn 2. Mae hyn yn dda iawn.

•Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn ymgyrraedd tuag at lefel 4 neu 5 yn y maes Addysg Grefyddol, ac mae gweddill y dosbarth yn gweithio ar lefelau sy'n cyd-fynd a'u datblygiad personol. Gelir hyn yn dda yn yr ysgol.

**Materion i gael sylw**

•Sicrhau fod yna adnoddau digonol i ddiwallu'r maes yn y dosbarthiadau.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** ✓ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>•Rhoddir pwyslais i lais y plentyn yn ystod addoli ar y cyd. Rhoddir cyfle i'r plant gymryd rhan yn ymarferol neu drwy ateb cwestiynau ar ôl darlleniad.<br><br>•Daw y pregethwr a'r ficer lleol atom yn rheoliadd i gynnal gwasanaethau a daw hyn a dimensiwn ychwanegol i gyd-addoli arferol yr ysgol.<br><br>•Sicrheir yn nghalender yr ysgol fod dathlaidau Cristnogol yn cael eu dathlu yn yr ysgol megis gwasanaeth Diolchgarwch a'r Nadolig. Gwelir hyn yn dda i ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant gan mai ond 10% o deuluoedd yr ysgol (2 deulu) sy'n mynychu Ysgol Sul.<br><br>•Mae'r cynllun ABCh ynghyd a'r amser cylch a chyfnodau cyd-addoli a gwasanaethau yn arwain at ethos oddefgar, cydraddoldeb a gwerthfawrogiad o amrywiaeth.<br><br>•Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau yn yr eglwys neu gapel yn rheolaidd yn yr ardal. Maent bron oll, ar draws yr ystod oedran, yn elwa o'r cyfleoedd hyn i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac yn cynyddu yn eu gwerthfawrogiad o'u hardal a'i sefydliadau. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Carys Wyn Thomas (Pennaeth)

Dyddiad: 28/9/12

**Enw'r Ysgol: Ysgol Llandygai**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

### Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

- Mae'r ysgol yn gwybod am ei pherfformiad ei hun yn dda drwy drefniadau monitro, arsylwi, cymharu â dadansoddi yn erbyn data craidd. Mae'r drefn H.A wedi'i sefydlu'n fwriadus ar gyfer gwella safonau a darpariaeth ar draws y dosbarthiadau o fewn meysydd penodol.
- Darperir gwybodaeth gynhwysfawr i'r staff parthed data canlyniadau, monitro, arsylwadau gwersi, arfarniadau meysydd dysgu, ADY ,lles a chyllid, diweddariad parthed Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda ynglŷn â pherfformiad yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn meddu ar ddulliau effeithiol ar gyfer canfod barn cyfran-ddeiliaid yr ysgol er mwyn gwella agweddau yn yr ysgol.
- Mae'r cydlynwyr pwnc CS/ CA2 penodol yn cyflawni eu dyletswyddau ar y cyd yn fedrus. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn amrywiaeth o ddulliau yn nhrefn hunan arfarnu a monitro'r ysgol, yn effeithiol.
- Meithrinir yr ymdeimlad o waith tîm yn yr ysgol, gan sicrhau ymrwymiad y cydweithwyr at drefn hunan-arfarnu'r ysgol. Caiff hyn effaith bositif ar gynllun strategol yr ysgol ar gyfer codi safonau cyflawniad a gwella darpariaeth yr ysgol. Llunnir Cynllun Gweithredu datblygiadol gan y pennaeth, ac aelodau eraill o staff, yn dilyn trefn fonitro benodol.
- Yn dilyn arfarniad o safonau'r dysgu ac addysgu mewn Addysg Grefyddol , daethpwyd i'r farn fod:-
    - y disgyblion yn cael cyfle i archwilio credoau yn fwriadus gyda chymorth adnoddau crefyddol a strategaethau diddorol, plentyn canolog.
    - rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio a dechrau esbonio dysgeidiaeth ac arferion crefyddol.
    - defnydd da o symbolau crefyddol a geirfa briodol yng ngwaith y plant.
    - gwybodaeth a chyflawniad y disgyblion yn dda, ac maent yn defnyddio geirfa eang.
    - y cwestiynau sylfaenol bywyd sy'n cyfeirio at ddysgeidiaeth ac arferion crefyddau, wedi'u cynllunio'n drylwyr ar draws yr oedrannau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion gyda dealltwriaeth dda o'u diwylliannau eu hunain ac eraill.

- Mae'r system o asesu ar gyfer dysgu wedi cydio ymhob dosbarth gydag enghreifftiau o osod MPLl eu hunain. Gall ran fwyaf o'r disgyblion drafod eu hymdrechion a chymryd cyfrifoldeb am eu gwaith yn ogystal ag ymateb yn bositif i'r sylwadau am eu cyflawniadau, gan gynnig gwelliannau.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer monitro unigolion am faterion addysgol a chymdeithasol yn effeithiol yn yr ysgol.
- Mae llawer o'r plant yn gyfeillgar tuag at ei gilydd a chefnogol i'w gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Ceir ymdeimlad o deulu cyfeillgar yn yr ysgol ac anogir awyrgylch o faddeuant a chymod ynddi.

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, gydag agweddau positif ynglŷn â'r dysgu. Mae'r ysgol yn rhoi cyfle da i ddisgyblion leisio eu barn ynghylch yr addysg a ddarperir yn yr ysgol. Gwrandewir ar lais y plentyn er mwyn gwella agweddau addysgol ac allgyrsiol yr ysgol.
- Cafodd y Cyngor Ysgol effaith cadarnhaol ar godi ymwybyddiaeth yr holl ddisgyblion am fudiadau elusennol yn ogystal ag hyrwyddo'r ymdeimlad o ddyngarwch. Mae disgyblion yn datblygu eu cyfraniad tuag at nifer o agweddau o fywyd ysgol, gan gynnwys agweddau cynaliadwyol. Ceir cyfarfodydd cyson sy'n caniatáu i ddisgyblion o bob ystod i fynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau ar gyfer gwella agweddau yn yr ysgol. Cânt gyfle i drafod agweddau o'r CDY a gwnânt gyfraniad gwerthfawr at drefn Hunan Arfarnu'r ysgol. Byddant yn cyfathrebu'n effeithiol â'r Gymuned ehangach trwy lythyru'r cymdogion parthed digwyddiadau yn yr ysgol.
- Rhoddir cyfle bwriadus i grŵp o ddisgyblion ag ADY i ffurfio barn am fywyd yr ysgol ar gyfer adolygiadau blynyddol neu geisiadau am gymorth. Mae disgyblion yn cael cyfle i gyfrannu at gynnwys adroddiadau , lle bo'n briodol. Gweithredir y Côd Ymarfer AAA yn drwyadl a chydweithir ag ystod o wasanaethau allanol er mwyn lles y disgybl/ ion.
- Mae'r Llywodraethwyr yn barod i herio penderfyniadau ac ystyrir hwy yn gyfeillion beirniadol yr ysgol. Maent yn ymwybodol o gynnwys a blaenoriaethau'r CDY, ac yn rhan gychwynnol o'r broses Hunan Arfarnu. Mae gan bob un o'r llywodraethwyr eu rôl gwricwlaidd/reolaethol, sydd yn ychwanegol at eu swyddogaeth parthed aelodau o is bwyllgorau. Maent wedi cael cyfle i gyfarfod â'r cydlynwyr pwnc gan gwblhau adroddiad yn dilyn eu hymweliad. Mae

ganddynt berchnogaeth o'r polisïau ac yn cyfrannu'n sylweddol o fewn y broses o'u diwygio a'u haddasu. Maent yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ac yn gefnogol iawn ar gyfer defnyddio'u sgiliau i gynorthwyo'r ysgol e.e. Llywodraethwr Sylfaenol yn rhan o'r broses o greu Polisi Cyd-addoli newydd yn yr ysgol. Ânt i'r afael yn ddiymdroi ag unrhyw bryderon a chwynion.

- Ymatebwyd yn effeithiol i'r materion yr oedd angen eu gweithredu arnynt yn dilyn yr Arolwg blaenorol, mewn perthynas ag Addysg Grefyddol.

**Materion i gael sylw**

- Sicrhau fod cyfle i'r dysgwyr lunio cwestiynau llai er mwyn ateb y Cwestiwn Sylfaenol.
- Gofalu fod y Deilliannau Dysgu a'r MPLl yn weledol a dylid cyfeirio atynt wrth ymateb i waith.
- Ymgyfarwyddo'r Llywodraethwyr ymhellach at fywyd yr ysgol ac i ddatblygu eu rôl yn nhrefn Hunan-Arfarnu'r ysgol.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei naws groesawgar a drws agored. Mae'n hybu'r gwerthoedd Cristnogol ac yn ymrwymedig i ddarparu'r addysg orau bosibl i'w holl blant a phobl ifanc. Mae'r sefydliad â chymuned ofalgar a threfnus sydd â disgwyliadau, rheolau a gweithdrefnau clir. Ceir ymdeimlad hapus a bugeiliol ynddi. Mae'r ysgol yn cael ei harwain â'r ffydd Gristnogol yn ganolog iddi ym mywyd beunyddiol yr ysgol.
- Buddsoddwyd mewn arwyddion a symbolau gweledol ar gyfer adlewyrchu cymeriad nodedig yr ysgol. Ceir arddangosfeydd chwaethus ac arteffactau bwriadus yn yr ysgol, drwyddi draw, sy'n adlewyrchu cymeriad Cristnogol y sefydliad.
- Mae gan Addysg Grefyddol ei le haeddiannol yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae cynllunio trwyadl yn gwneud y mwyaf o gysylltiadau trawsgwricwlaidd ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu sgiliau.
- Ceir elfen eglwysig gref mewn Addysg Grefyddol, ac mae'r ficer lleol yn adnodd ardderchog ar gyfer y pwnc a gwerthfawrogir ei ran yma, yn ogystal â meysydd eraill o fywyd a chymuned yr ysgol.
- Mae monitro ac asesu yn rhan naturiol o'r Addysg Grefyddol yn yr ysgol, ac mae'r ffordd y mae'r ysgol yn cynnwys elfennau o'i bywyd fel ysgol eglwysig yn ei chynllunio ar draws y blynyddoedd dysgu yn dda.
- Mae amcanion y Pennaeth yn uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar gyfer yr ysgol gyfan. Ceir cymuned ddysgu da rhwng yr athrawon a chymorthyddion o fewn yr ysgol sy'n arwain at rannu syniadau a phrofiadau, o gydweithio a chyd gynllunio.
- Mae'r aelodau o UDRh a'r staff dysgu yn hyrwyddo gwerthoedd a gweledigaeth yr ysgol eglwys yn effeithiol.
- Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus y staff dysgu yn flaenoriaeth yng Nghynllun Datblygu'r ysgol ac mae'r cydlynwyr pwnc yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn llawn.
- Mae'r lefel staffio yn briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Ceir staff eangfrydig sy'n cynnig ystod dda o brofiadau i'r plant a chydweithrediad proffesiynol rhwng y dysgu a'r cymorthyddion, ar gyfer paratoi adnoddau chwaethus a'r ddarpariaeth orau, er mwyn cyflwyno ystod o brofiadau eang a diddorol.
- Caiff y cyfarfodydd staff eu cynnal yn effeithlon ar gyfer trafod blaenoriaethau'r CDY a chanolbwyntio ar faterion crefyddol. Cynhyrchir pwyntiau gweithredu clir a chryno a chlustnodir amser penodol i'w gweithredu. Rhoddir cyfleoedd digonol i staff adrodd yn ôl ar agweddau penodol, yn ogystal â chyflwyno agweddau i'w datblygu mewn cyfarfodydd Llywodraethol.
- Mae Polisïau Cwricwlaidd, gan gynnwys Addysg Grefyddol, a threfniadau'r ysgol ar gyfer lles disgyblion wedi'u mabwysiadu neu eu diwygio a chânt eu gweithredu'n effeithiol yn yr ysgol.
- Mae'r CDY yn rhoi sylw i'r prif flaenoriaethau i'w datblygu, ac mae cost, amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth, wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys codi safonau Addysg Grefyddol ar draws yr oedrannau dysgu, datblygu Cynllun Ysgol Iach ac Ysgol Werdd yr ysgol a gwella'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r Gymuned.

- Cyflwynwyd, yn ddiweddar yn yr ysgol, menter ‘Cyfnod Myfyrio’ yn rhan o’i darpariaeth Addysg Grefyddol. Mae’n cyflwyno dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 y sgil o fyfyrio mewn cyd-destun Cristnogol. Yn aml, defnyddir delweddau neu ddigwyddiadau arbennig fel man cychwyn. Mae’r effaith ar y disgyblion wedi bod yn gadarnhaol, ac mae dyfnder gwaith disgyblion, yn arbennig yn CA2, wedi bod yn drawiadol iawn.

- Mae cwestiynau sylfaenol bywyd a gyfeirir at ddysgeidiaeth ac arferion crefyddau, wedi’u cynllunio’n drylwyr ar draws yr oedrannau dysgu. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion gyda dealltwriaeth dda o’u diwylliannau eu hunain ac eraill.

- Cynllunnir y gweithgareddau sy’n ymdrin ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol disgyblion ar draws y themâu yn dda. Mae’r disgyblion yn cael amser cyfaddas ar gyfer delio â materion personol a chymdeithasol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o’r pwysigrwydd o barchu aml-ddiwylliannau, tegwch a chyfle cyfartal. Rhoddir pwyslais arbennig ar sgiliau bywyd, a thynnir sylw at gadw meddwl a chorff iach. Ceir ymweliadau cynhaliol ar gyfer atgyfnerthu eu gwybodaeth a dealltwriaeth. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i ymdrin ag agweddau sy’n ymwneud â gofal a lles disgyblion , yn yr ysgol a’r cartref.
- Cyflwynir Cwricwlwm eang sy’n rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygu’r ymdeimlad o frawdgarwch a chydraddoldeb yn y disgyblion. Rhoddir mynediad cyfartal i bawb i’r cwricwlwm.
- Mae’r staff dysgu, ategol, Llywodraethwyr a Phennaeth yr ysgol yn parchu pob dysgwr yn unigolyn arbennig ei hun ag anghenion penodol. Ceir systemau ADY effeithiol ar gyfer targedu grwpiau o ddisgyblion yn ogystal ag anghenion unigol. Cydweithir yn agos ag Asiantaethau Allanol ar gyfer sicrhau mynediad llawn y disgyblion i’r Cwricwlwm.
- Hyrwyddir Llais y Plentyn yn effeithiol yn yr ysgol, ac mae disgyblion CA2 yn cael eu cynrychioli’n dda gan y Cyngor Ysgol. Maent yn edrych ar agweddau o fentergarwch a fyddai’n datblygu sgiliau bywyd ymysg y plant ac yn ffynhonnell codi arian at achosion da a dibenion penodol o fewn yr ysgol.
- Bydd y Pwyllgor Eco-sgolion yn trafod materion amgylcheddol ac yn hyrwyddo agweddau fel ailgylchu, arbed ynni a masnach deg, yn llwyddiannus. Mae’r ysgol wedi ennill y wobr aur o fewn y cynllun ‘Eco-sgolion ’ ac mae’r disgyblion yn elwa o brofiadau a chyfrifoldebau cynaliadwy.
- Llwyddodd yr ysgol i ennill achrediad Llywodraeth Cynulliad Cymru a cheir cynllun bwriadus sydd wedi’i integreiddio’n naturiol i fywyd yr ysgol er mwyn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, athrawon a’r gymuned ehangach. Mae’r cyfleoedd i wella iechyd, lles a ffitrwydd y dysgwyr wedi’i strwythuro’n fanwl. Cynigir ystod o glybiau yn yr ysgol, yn ystod ac ar ôl ysgol, ac maent yn cyfrannu’n dda at wella ffitrwydd ac iechyd y disgyblion.
- Mae’r ddarpariaeth a’r gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn dda iawn. Amserlennir y cymorth ADY a roddir ar draws yr oedrannau dysgu yn effeithiol, gan gynnwys disgyblion mwy galluog a thalentog. Rhoddir cefnogaeth dda i’r disgyblion ag ADY o fewn y dosbarthiadau, ac addasir y drefniadaeth dosbarth yn bwrpasol er mwyn sicrhau safonau o gyflawniad disgwyliedig. Mae’r sesiynau Amser Cylch a Chylch o Ffrindiau wedi’u hamserlennu’n wythnosol ac yn strategaeth effeithiol ar gyfer datblygu hunan-barch a chyfeillgarwch yn ogystal ag hyrwyddo’r gwerthoedd Cristnogol.
- Datblygir partneriaeth strategol rhwng y gymuned, rhieni, yr Esgobaeth a’r ysgol i wella safonau a lles y disgyblion. Mae’r bartneriaeth rhwng yr ysgol a’r rhieni wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer codi eu hymwybyddiaeth o’r gweithgareddau a gyflwynir yn ogystal â chynnig argymhellion defnyddiol ar gyfer cynorthwyo eu plant mewn meysydd penodol
- Mae’r ysgol yn manteisio ar sgiliau pobl o fewn y gymuned er mwyn cyfoethogi profiadau’r dysgwyr, ac ar yr un pryd, datblygu ethos cymunedol. Gwelir hyn drwy wahodd aelodau o’r gymuned i gynorthwyo’r disgyblion yn ystod oriau dysgu ac allgyrsiol. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o gynhwysiad ar lefel cymuned.
- Mae’r llywodraethwyr yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn dda ac maent yn gefn cadarn i’r Pennaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’u cyfrifoldebau. Cydweithiant yn agos â’r Pennaeth ar gyfer gosod cyfeiriad strategol i ddatblygu’r ysgol.
- Mae’r Pennaeth a’r Llywodraethwyr yn sicrhau bod yr anghenion statudol ar gyfer addoli ar y cyd yn weithredol yn yr ysgol.
- Cynhyrchir adroddiad blynyddol bwriadus i rieni yn unol â’r gofyn statudol ar weithrediad y Corff Llywodraethol.
- Mae Llawlyfr diwygiedig yr ysgol yn pwysleisio’r berthynas rhwng y gwerthoedd Cristnogol ag addysg gyflawn y dysgwyr.
- Cafwyd cais yn ddiweddar , gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau, i wasanaethau Ysgol Llandygai gael eu cyflwyno’n electroneg ar safwe Adnoddau Cynnal. Bydd y gwasanaethau hyn ar gael i ysgolion eraill yng Nghymru er mwyn rhannu arferion da.
- Ceir perthynas dda â’r gymuned addolgar leol sy’n cyfoethogi'r defnydd a wneir o’r arteffactau Cristnogol, ac yn sgil hyn, adeiladu ar brofiadau ysbrydol y disgyblion, a rhoddi cyfleoedd bwriadus ar gyfer dysgu am addoli ac am draddodiadau crefyddol.
- Yn y Cyfnod Sylfaen mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am eu dysgu trwy’r drefn o

ddewis gweithgareddau, ac yng Nghyfnod Allweddol 2 maent yn cyfrannu tuag at osod eu targedau ar gyfer gwella.

- Rhoddir cyfle i'r disgyblion rhoi mewnbwn i'r hyn y maent yn ei ddysgu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfranogiad. Mae eu gallu i gynnal y canolbwyntio ac i ymgymryd â thasgau yn briodol.
- Caiff disgyblion o bob oedran gyfleoedd aml i ysgwyddo cyfrifoldebau a chymryd dyletswyddau dyddiol.
- Ceir trefn effeithiol o ddelio a monitro achosion o bryder ac mae'r staff dysgu ac ategol yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau parthed achosion Amddiffyn Plant ac Iechyd a Diogelwch.
- Mae'r blychau 'Dwi eisio dweud' yn adnodd effeithiol ar gyfer cynnig cyfleoedd i'r disgyblion rannu eu pryderon yn gyfrinachol, mewn ffordd sensitif.
- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl feysydd.

**Materion i gael sylw**

- Mae gwaith pellach i'w wneud ar gyfer datblygu cysylltiadau rhyngwladol a datblygu ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.
- Parhau i ddatblygu cymeriad Cristnogol yr ysgol, sydd bellach wedi'i wreiddio ym mywyd naturiol yr ysgol.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy √ | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae'r cyfnodau cyd-addoli a myfyrio yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu ethos Cristnogol yr ysgol. Amlygir y gwerthoedd Cristnogol a chyfrannir at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion, a staff, yn effeithiol
- Fel rhan o'r broses i godi safonau Addysg Grefyddol ar draws yr oedrannau dysgu, mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol. Sefydlwyd y gymuned hon ar gyfer diwygio Polisi Cyd-addoli ac addaswyd amcanion cyffredinol yr ysgol er mwyn adnabod y gwerthoedd Cristnogol o fewn agweddau cwricwlaidd a haniaethol. Mae camau bwriadus ar waith ar gyfer arfarnu effaith y cyfnodau myfyrio ar ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.
- Mae'r addoliad a myfyrdod yn effeithiol ar gyfer cyfoethogi'r ysgol fel cymuned a gwaddoli profiad addysgol pob plentyn. Mae'r cyfnodau hyn wedi'u strwythuro'n sesiynau cyfamserol ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol ac emosiynol, yn ogystal. Darperir mannau priodol ar gyfer annog myfyrdod ac addoliad. Mae'r weithred ddyddiol o addoli yn effeithiol yn ei elfen ymddangosol Gristnogol trwy'r defnydd o symbolau, cannwyll, themâu, cerddoriaeth ac amser tawel penodedig. Ceir rhaglen benodol ar gyfer themâu cyd-addoliad ac mae unigolion wedi'u henwebu i fod â chyfrifoldeb am addoli ar y cyd, yn ogystal â'r Pennaeth. Cynllunnir y cyfnodau addoli yn fanwl gan ddilyn y flwyddyn litwrgaidd.
- Mae dogfennaeth yr ysgol yn cyfeirio'n glir at bwysigrwydd y cyfnodau addoli ym mywyd naturiol yr ysgol. Datgelir sylfaen cymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol yn y Llawlyfr i Rieni ac mae'r weledigaeth Gristnogol yn cael ei hadlewyrchu'n fwriadus yn ei datganiad cenhadaeth, nodau ac amcanion.
- Mae trefniadau'r ysgol parthed hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol yn dda . Mae'r dysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfnodau myfyrio newydd er mwyn datblygu synnwyr o fyfyrdod trwy feddwl am eu bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill, eu hamgylchedd a'r cyflwr dynol ar draws y pynciau. Mae llawer o'r disgyblion yn cael cyfle i fynegi eu hysbrydoliaeth yn drawsgwricwlaidd h.y. cyflwyniad aml-gyfrwng, gwaith ysgrifenedig. Cydweithir â'r Ganolfan Santes Fair, ar gyfer mesur effaith y cyfnodau myfyrio ar ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Sicrhau dechrau a diwedd clir ar gyfer yr adegau o addoli.
- Ystyried amrywio 'cynllun' y disgyblion mewn gweithredoedd addoli cyfnod allweddol.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *C Hughes* (Pennaeth)

Dyddiad: *25/09/2012*

**Enw'r Ysgol: Ysgol Foel Gron**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Datblygir gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn yn y plant am gredoau ac arferion Christnogol a phrif egwyddorion crefyddau eraill drwy ein cynlluniau tymhorol a'n gwersi wythnosol sydd yn cyd-fynd â gofynion y Maes Llafur a'r Fframwaith Sgiliau. Defnyddiwn adnoddau a dulliau cyflwyno a argymhellwyd gan yr ymgynghorydd addysg grefyddol er mwyn cyflwyno'r pwnc yn effeithiol.
- Defnyddir sgiliau meddwl, cyfathrebu a TGCh wrth weithio ar wahanol agweddau o'r pwnc a gwneir defnydd effeithiol a chyson o Asesu ar Gyfer Dysgu i gyfoethogi'r ddarpariaeth.
- Defnyddiwyd enghreifftiau o waith addysg grefyddol plant CA2 Ysgol Foel Gron fel enghreifftiau o arfer dda gan yr ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn dilyn i'r athrawes CA2 fod ar gwrs HADA.
- Mantesiwn ar ymweliadau gan unigolion arbennigol er mwyn cryfhau cyflwyniadau a dealltwriaeth o wahanol feysydd yn y pwnc e.e o Gymroth Cristnogol, Masnach Deg. Yn ogystal â hyn awn ar ymweliadau addysgol sydd yn cyfoethogi gwaith y dosbarth e.e i weld addoldai, i Ynys Enlli ac ati, ac o ganlyniad gall y plant berthnasu yn gadarnch â'r pwnc.
- Mae plant yn datblygu drwy'r ysgol i gyflwyno ymatebion personol ac aeddfed i gwestiynau personol, crefyddol a moesol gan ddangos empathi at eraill.
- Cyflwynir addysg grefyddol drwy gyfrwng straeon, Beiblaidd neu Foesol yn y Cyfnod Sylfaen a defnyddir adnoddau fel pypedau i ddod â'r gwaith yn fyw a pherthnasol. Mae'r plant yn ymateb yn dda iawn i hyn gan ddatblygu yn gyson i drafod, mynegi barn ac ailadrodd straon a phrofiadau mewn ffurfiau ysgrifenedig neu weithgareddau llafar.
- Yng Ngyfnod Allweddol 2 cyflwynir 'Cwestiwn Mawr' fel sbardun i gychwyn y gwait a chaiff y plant gyfleoedd i fod yn rhan o gynllunio gwaith y tymor. Sicrheir cyfleoedd mewn gwersi i fynd ar ôl y trywyddau ymholi drwy ymchwilio, casglu gwybodaeth, creu a dadansoddi holiaduron, edrych ar dystiolaeth weledol ac arteffactau, mynd ar ymweliadau, trafod gyda chyd-ddisgyblion ac ymwelwyr ac ati. Erbyn diwedd yr uned waith maent wedi casglu gwybodaeth berthnasol i allu cynnig eu hateb personol i'r 'Cwestiwn Mawr' Neulltir amser ar ddiwedd y tymor i drafod y 'Cwestiwn Mawr' a gall y mwyafrif llethol o'r plant wenud hyn yn hyderus, effeithiol a sensitif.
- Mae gwaith y plant a thrafodaethau â hwy, yn dangos fod plant, o oedran ifanc iawn, yn ymwybodol o reolau a bod y rheiny yn amrywio o grefydd i grefydd. Gall y mwyafrif o blant drafod yn naturiol ac eang gan ystyried a pharchu safbwyntiau eraill a'r gwahaniaethau sydd o fewn cymdeithas yn ogystal â mynegi barn eu huanin.Gall rhai plant hŷn esbonio effaith hyn er eu bywydau.
- Cyflwynir ystod o eirfa grefyddol addas yn ystod y gwersi addaysg grefyddol a gwelir y plant yn eu mabwysiadu yn rhwydd yn rhan o'u geirfa naturiol er mwyn trafod gwahanol destunau. Maent hefyd yn dod i adnabod mwy-fwy o symbolau crefyddol a deall bod ystyr iddynt.

**Materion i gael sylw**

- Ehangu'r cyd-weithio sydd yn digwydd gydag Ysgol Llanystumdwy a threfnu cyfle i athrawon cyfnod sylfaen y ddwy ysgol i gael sgwrs a thrafodaeth gyda'r ymgynghorydd Addysg Grefyddol gan fod y ddwy newydd gychwyn yn eu swyddi llynedd.
- Cyd-weithio gydag ysgol gyfagos i arsylwi gwersi
- Parhau i ddatblygu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y plant o grefyddau ac arferion crefyddol

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r holl blant (bwlyddyn D-6) yn derbyn gwers addysg grefyddol yn wythnosol yn unol â'r gofynion statudol .
- Cynllunir yn y ddau gyfnod allweddol i sicrhau fod holl ofynion y Maes Llafur yn cael sylw haeddiannol a bod y plant yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan, wedi ei addasu i oed a gallu. ond byddwn yn ei haddasu i gyd-fynd a digwyddiadau cyfoes o fewn yr ysgol, y gymuned neu'r ardal leol fel bod y plant yn cael cyfle i fyfyrio ac ymateb i'r byd o'u cwmpas a bod y pwnc yn dod yn fyw a pherthnasol, yn unol a dull y Cyfnod Sylfaen o gynllunio.
- Mae gan yr athrawon ymwybyddiaeth dda o ofynion y pwnc ac rydym yn mynychu hyfforddiant a chyd-weithio yn agos gyda'r ymgynghorydd addysg grefyddol gan ddilyn ei harweiniad arbenigol. Mae athraes CA2 wedi mynychu hyfforddiant addysg grefyddol yn ddiweddar ac wedi rhaeadru'r wybodaeth berthnasol mewn cyfarfodydd staff gan greu taflenni perthnasol i staff eu dilyn. Trwy hyn mae strwythur a dilyniant i wersi yr ysgol gyfan ac rydym yn cyflwyno gwersi o safon dda.
- Defnyddiwn amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno y pwnc gan gynnwys cyfleon i'r plant ymchwilio eu huanin, casglu gwybodaeth, rhannu syniadau a thrafod, defnyddio dulliau Medrau Meddwl gan ddatblygu sgiliau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth ar yr un pryd. Cyflwynwn waith y tymor fel cwestiwn mawr ac erbyn diwedd yr uned o waith cawn gyfle i geisio ateb y cwestiwn.
- Caiff y plant ddefnyddio ac archwilio i ystod o dystiolaeth a ffynonellau crefyddol megis straoen, addoldy, artreffactau, gwefannau a gall y mwyafrif yn CA2 gynllunio  a meddwl am gwestiynau da i'w gofyn i ddyfnhau eu dysgu.
- Sicrhawn ddigon o gyfleon i'r plant drafod ac ymateb i gwestiynau sydd yn ymwneud a bywyd bob dydd ac mae'r plant yn barod i rannu eu sylwadau a'u barn gan ymateb yn sensitif i'w gilydd.
- Rydym wedi magu perthynas glos gydag Chyd- Ysgol Eglwys gyfagos i rannu arferion da wrth gynllunio a chyflwyno addysg grefyddol yn ein hysgolion. Byddwn hefyd yn ymweld ag ysgolion ein gilydd ac yn cynnal gweithgareddau ar y cyd e.e rhannodd plant CA2 y ddwy ysgol ymweliad â Choleg y Bala i fynd ar weithdy Pasg a daeth plant y Cyfnod Sylfaen y ddwy ysgol yn dod at ei gilydd i dderbyn 'Godly Play' gan Ficer sydd yn arbennigo ynddo. O ganlyniad gallwn ehangu a dyfnhau y profiadau Addysg Grefyddol a gyflwynwn yn y ddwy ysgol.

**Materion i gael sylw**

- Parhau i ddyfnhau ein perthynas ag Ysgol Llanystumdwy
- Parhau i ddatblygu sgiliau trafod, gwrando a mynegi barn y plant yn y gwersi addysg grefyddol
- Trefnu ymweliadau ag addoldai crefyddau eraill

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae ein Polisi Cyd-addoli yn gyfredol yn cael ei ddilyn ac wedi derbyn canmoliaeth yn ein harolwg Eglwysig. Eglurir y polisi yn ein Llawlyfr i Rieni, yn ein Llawlyfr Staff ac ar ein gwefan ysgol. Trwy hyn sicrhawn gysondeb gan fod holl ran-ddeiliaid yr ysgol yn ymwybodol ohono ac yn ei ddilyn.
- Rhoddir lle blaenllaw i addoli ar y cyd yn yr ysgol a chynhwysir cyd-addoli fel ysgol gyfan yn ddyddiol yn ein hamserlen wythnosol a rhennir y cyfrifoldeb am eu cynnal ymysg yr athrawon. Trwy hyn mae'r plant yn gweld addoliad yn rhan naturiol o'u bywydau bob dydd.
- Rhoddir sylw i agweddau Beiblaidd, aml-ddiwylliannol a materion cyfoes yn yr addoliad a thrwy hyn caiff y plant gyfle i ddysgu ac ymateb i wahanol agweddau o'r maes.
- Mae awyrgylch ac ethos arbennig yn cael ei gynnal yn ystod gwasanaethau, a'r plant hynaf sydd yn gyfrifol am greu hyn drwy chwarae cerddoriaeth addas i fynd i mewn ac allan o'r neuadd, estyn yr adnoddau perthnasol a wynebu ffenestr liw perthnasol a silff ffenestr gyda chroes, cannwyll a symbolau crefyddol eraill arni. Trwy hyn mae'r neuadd yn cael ei thrawsnewid i fod yn fan addoli yn ystod y cyfnodau hyn.
- Mae perthynas glos a chadarnhaol rhwng y plant a'r staff a'r Ficer Lleol. Daw atom yn yr ysgol i gynnal gwasanaeth misol ac awn ninnau i'r Eglwys yn Llangian i gynnal gwasanaethaeu ar nosweithiau Sul pan fo gwasanaeth arbennig megis Diolchgarwch neu Blygain. Mae hyn yn creu cwlwm clos rhyngom a'r Eglwys.
- Manteisiwn ar groesawu unigolion o fudiadau crefyddol i'r ysgol i gynnal gwasanaethau, megis Nia o Goleg y Bala, Rachael o Trobwynt a mwy. O ganlyniad mae'r plant yn profi amrywiaeth o fewn eu haddoliad ac yn gweld negeseuon Cristnogol yn cael eu cyflwyno mewn gwahanol ffyrdd. Ymateba'r plant yn dda i'r ymweliadau hyn.
- Cyfranoga'r plant yn dda yn ein sesiynau cyd-addoli ac maent yn deall pam ein bod yn addoli. Maent yn gwrando yn dda, ymateb yn briodol, yn cymeryd rhan ac yn dangos parch a mwynhad yn ystod yr addoliad. Sicrheir cyfnodau i fyfyrio yn ystod pob addoliad ac hefyd wrth 'anfon y gannwyll' i gofio am rhywun/rhywrai ar ddiwedd yr addoliad.
- Caiff addoliad dyddiol gynllunio yn ofalus gan y staff ar gychwyn pob tymor gan gymeryd i ystyriaeth y calendr Eglwysig a digwyddiadau cyfoes, yna caiff ei fonitro gan y staff er mwyn sicrhau fod digon o bwyslaisar werthoedd Cristnogol a moesol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Rhoi mwy o gyfleon i blant gynllunio eu gwasanaethau eu hunain ar themau arbennig.

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: MHOwen (Pennaeth)

Dyddiad: Hydref 19, 2012

**Atodaf Adroddiad Arolwg yr Eglwys a gynhaliwyd ym Mehefin 2012 fel tystiolaeth ychwanegol.**

*Adroddiad Arolwg Gwella (o dan Adran 50 Deddf Addysg 2005)*

# YSGOL FOEL GRON, MYNYTHO

## Ysgol Gynradd dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru

Mynytho, Gwynedd, LL53 7RN

| | |
|---|---|
| *Esgobaeth* : **Bangor** | *Dyddiad yr Arolygiad:* **27-29.6.2012** |
| *Awdurdod Lleol*: **Gwynedd** | *Rhif unigryw'r ysgol*: **661/3010** |
| *Pennaeth :* **Mrs. Manon Haf Owen** | **Arolygydd** *Gwella :* **Y Parchedig Robert Townsend** |

**1 Cyd-destun ysgol**

Mae Ysgol Foel Gron yn gwasanaethu pentref Mynytho a'r ardal wledig o'i amgylch. Y mae'r ysgol yn addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae yn union dros hanner y disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Ceir 30 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6. Mae cymeriad Cristnogol yr ysgol yn ei ddatgelu ei hun cyn gynted ag yr ydych yn dynesu at adeilad yr ysgol ac yn mynd i mewn i'r gymuned ddysgu hapus ac effeithiol, diolch i siâp eglwysig arbennig ffenestri'r prif adeilad.

**2 Mae arbenigrwydd ac effeithiolrwydd Ysgol Foel Gron fel Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn <u>dda</u>**

Mae Ysgol Foel Gron yn ysgol eglwysig dda, sydd hefyd â rhai agweddau ar ardderchowgrwydd fel ysgol eglwysig. Mae gweledigaeth ac arweinyddiaeth yr eglwys fel ysgol eglwysig yn dda iawn ac mae'n dod i gael ei blannu ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn llwyddo i greu awyrgylch deuluol hapus - wedi ei sylfaenu ar werthoedd Cristnogol – ac sy'n annog disgyblion i flodeuo a chyflawni eu potensial.

**3 Cryfderau sefydledig**

1 Cymeriad Cristnogol yr ysgol
2 Cynllunio addoli
2 Cofnodi addoli
3 Gweithredoedd addoli
2 Cyfraniad da addysg grefyddol at gymeriad Cristnogol ac Eglwysig yr ysgol
3 Arddangosiad gweladwy o gymeriad Cristnogol yr ysgol yn y neuadd a'r coridor
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig
6 Hunan-arfarniad yr ysgol fel ysgol eglwysig
7 Dogfennaeth yr ysgol

**4 Ffocws ar gyfer datblygiad**

1 Arddangos yn weladwy gymeriad Cristnogol yr ysgol yn y dosbarthiadau
2 Cyflawni'r ardaloedd ar gyfer eu datblygu a amlygir yn nogfen hunan-arfarnu'r ysgol

Yn ymateb i'r adroddiad hwn, gofynnir i'r ysgol gyflwyno cynllun gweithredu i Fwrdd Addysg Statudol yr Esgobaeth, yn unol â ffram amser a gytunir gyda Chyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth.

**5 Mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol arbennig, yn <u>dda</u> am gyfarfod anghenion pob dysgwyr**

Mae'r ysgol yn sicrhau sylfaen dda i ddisgyblion fel y dechreuant ar eu siwrnai i gyflawni eu potensial a dod yn ddinasyddion byd-eang, ac mae cymeriad Cristnogol yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at hyn. Mae datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda a gall y disgyblion amlygu cymeriad Cristnogol yr ysgol a siarad amdano. Gellir gweld elfennau o gymeriad Cristnogol yr ysgol ar draws cwricwlwm yr ysgol, er enghraifft yn y ffordd y mae'r ysgol yn adeiladu tuag at y wobr Masnach Deg. Mae'r dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwerthoedd a'r egwyddorion Cristnogol o amgylch Masnach Deg, ac y maent yn llwyr ymroddedig i wneud y cyfan a allant i gynorthwyo pobl mewn angen. Mae hyn i gyd yn gwasanaethu i hyrwyddo ymhellach ddatblygiad moesol da'r dysgwyr.

**6 Mae effaith cydaddoli ar y gymuned ysgol yn <u>dda</u>**

Diolch i strwythur clir addoli, ynghyd â chynllunio, cofnodi ac arfarnu manwl – gan sicrhau bod addoli'n masglu gyda'r themâu addysgu yn ogystal â'r flwyddyn eglwysig – mae addoli'n brofiad cadarnhaol i ddisgyblion ac yn rhan hanfodol o fywyd ysgol. Ceir enghreifftiau da o gyfranogiad ac ymwneud disgyblion, yn ogystal â defnydd rheolaidd o'r Beibl. Mae gan y disgyblion a'r staff feddwl mawr o ran y Ficer lleol. Gellid rhoi mwy o amser i'r disgyblion fyfyrio a gweddïo yn dawel ar eu pennau eu hunain a gellid ychwanegu at y stoc o ganeuon addoli, ond mae'r ffenestr ffocws a'r defosiwn syml o ddiffodd ac 'anfon y gannwyll' at rywun 'drwy weddi' yn enghreifftiau o ragoriaeth yn addoli'r ysgol.

**7 Mae effeithiolrwydd addysg grefyddol yn <u>dda</u>**

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau bod addysg grefyddol yn cael ei lle cyfiawn yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae cynllunio trwyadl yn gwneud y mwyaf o gysylltiadau trawsgwricwlaidd ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu sgiliau. Gellir gweld hyn ar waith yn ystod y gwersi. Mae gwybodaeth a chyflawniad y disgyblion yn dda, a gallant ddefnyddio geirfa eang. Ceir elfen eglwysig dda o fewn addysg grefyddol, ac mae'n ardderchog gweld y Bererindod yn cael lle yn y cwricwlwm, er enghraifft. Mae'r ficer lleol yn adnodd da ar gyfer y pwnc a gwelir gwerth mawr yn ei ran yma hefyd.

**8 Mae effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig yn <u>ardderchog</u>**
**Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer parhau i wella yn <u>ardderchog</u>**

Mae gweledigaeth y pennaeth o'r ysgol fel ysgol eglwysig yn glir a chyfathrebir a rhennir hyn gyda gweddill y staff a'r gymuned ysgol ehangach. Ar gyfer elfennau ysgol eglwysig, mae dogfennaeth yr ysgol yn dda iawn, gyda llawlyfr y staff a'r polisi addoli yn enghreifftiau o ardderchowgrwydd. Byddai hefyd yn briodol gosod y polisi ymddygiad a disgyblaeth, yn ogystal â'r polisi gwrth-fwlio, yn eu cyd-destun Cristnogol.

Mae hunan-arfarniad yr ysgol ohoni ei hun fel ysgol eglwysig wedi ei ddatblygu'n dda ac yn fanwl, ac mae deilliannau'n bwydo i gynllun datblygu'r ysgol. Mae hyn hefyd yn enghraifft o ardderchowgrwydd, a bydd yn amhrisiadwy fel y mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu fel ysgol eglwysig.

Wrth weithredu ar y materion y mae dogfen hunan-arfarnu'r ysgol yn eu hamlygu, bydd yr ysgol yn parhau i wella fel ysgol eglwysig.

| | |
|---|---|
| ***A ydyw'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli?*** | **Ydy** |
| **A ydyw'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?** | **Ydy** |
| ***A ydyw'r ysgol wedi gweithredu argymhellion yr arolwg blaenorol*** | **Ydy** |
| ***A ydyw'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer mynediad? (Cymorthedig yn unig)*** | **-** |

*Dylid ystyried cynnwys yr adroddiad hwn wrth ochr Adroddiad Adran 28 Tîm Arolygu Estyn.*
*Dymunaf ddiolch i Dîm Arolygu Estyn am eu croeso a'u cydweithrediad.*
*Dymunaf ddiolch i Bennaeth, Staff, Llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Foel Gron am eu croeso a'u cydweithrediad. Bendith Duw arnoch yn y dyfodol.*

***Y Parchedig Robert Townsend 2 Gorffennaf 2012***

***Gwella Inspection Report (under Section 50 of the Education Act 2005)***

**YSGOL FOEL GRON, MYNYTHO**

**A Church in Wales Voluntary Controlled primary School**

Mynytho, Gwynedd, LL53 7RN

| | |
|---|---|
| *Diocese* : **Bangor** | *Date of Inspection:* **27-29.6.2012** |
| *Local Authority*: **Gwynedd** | *School's unique number*: **661/3010** |
| *Head :* **Mrs. Manon Haf Owen** | *Gwella Inspector:* **The Rev'd Robert Townsend** |

**1 School context**

Ysgol Foel Gron serves the village of Mynytho and the surrounding rural area. As the school teaches Welsh as a first language, and just over half of the pupils come from homes where Welsh is the first language. There are 30 pupils on the school roll from reception to Year 6. The Christian character of the school reveals itself as soon as you go approach the school building and enter this happy and effective learning community, thanks to the distinctive ecclesiastical shape of the main building's windows.

**2 The distinctiveness and effectiveness of Ysgol Foel Gron as a Church in Wales school are good**

Ysgol Foel Gron is a good church school, which also has some aspects of excellence as a church school. The vision and leadership of the school as a church school is very good and is becoming embedded in the school's life. The school succeeds in creating a happy familial atmosphere - founded upon Christian values - and which encourages pupils to flourish and fulfil their potential.

**3 Established strengths**

1 The Christian character of the school
2 The planning of worship
2 The recording of worship
3 The acts of worship
2 The good contribution of religious education to the school's Christian and Church character
3 The visible demonstration of the school's Christian character in the hall and corridor
5 The leadership and management of the school as a church school
6 The self-evaluation of the school as a church school
7 The school's documentation

**4 Focus for development**

1 Visibly demonstrate the Christian character of the school in the classrooms
2 Fulfil the areas for development highlighted in the school's self-evalaution document

In response to this report, the school is requested to present an action plan to the Diocesan Board of Statutory Education, according to a timeframe agreed with the Diocesan Director of Education.

**5 The school, through its distinctive Christian character, is good at meeting the needs of all learners**

The school ensures a good basis for pupils as they begin their journey to fulfil their potential and become global citizens, and the school's Christian character contributes significantly to this. Pupils' spiritual development is good and pupils can highlight the school's Christian character and talk about it. Elements of the school's Christian character can be seen across the school's curriculum, for example the way in which the school is building towards the Fair Trade award. Learnes are developing their knowledge and understanding of the Christian values and principles around Fair Trade, and are wholly committed to do all that they can to help people in need. This all serves to further enhance learners' good moral development.

**6 The impact of collective worship on the school community is <u>good</u>**

Thanks to the clear structure of worship, along with detailed planning, recording and evaluation - ensuring that worship meshes with the teaching themes as well as the church year - worship is a positive experience for pupils and an essential part of school life. There are good examples of pupil participation and involvement, as well as regular use of the Bible. Pupils and staff have a high regard of the involvement of the local Vicar. Pupils could be given more time to reflect and pray in quiet on their own and the repertoire of worship songs could be enhanced, but the focus window and the simple devotion of extinguishing and 'sending the candle' to someone 'by prayer' are examples of excellence in the school's worship.

**7 The effectiveness of the religious education is <u>good</u>**

The school has worked hard to ensure that religious education has its rightful place in the school's curriculum. Thorough planning makes the most of cross-curricula links and encourages pupils to develop their skills. This can be seen in action during the lessons. Pupil's knowledge and achievement is good, and they can use a broad vocabulary. There is a good church element within religious education, and it is excellent to see the Pilgrimage having a place in the curriculum, for example. The local vicar is a good resource for the subject and his role here is also much valued.

**8 The effectiveness of the leadership and management of the school as a church school is <u>excellent</u>**

**The prospects for the school to continue improving is <u>excellent</u>**

The head's vision of the school as a church school is clear and this is communicated and shared with the rest of the staff and the wider school community. For church school elements, the school's documentation is very good, with the staff handbook and worship policy being examples of excellence. It would also be appropriate to set the behaviour and discipline policy, as well as the anti-bullying policy, in their Christian context.

The school's self-evaluation of itself as a church school is well developed and rigorous, and outcomes feed into the school's development plan. This is also an example of excellence, and will be invaluable as the school continues to develop as a church school.

In acting on the issues that the school's self-evaluation document highlights, the school will continue to improve as a church school.

| | |
|---|---|
| ***The school meets the statutory requirement for collective acts of worship*** | **YES** |
| ***The school meets the statutory requirement for religious education*** | **YES** |
| ***The school has acted upon recommendations from the previous inspection report*** | **YES** |
| ***The school's Admission's Policy meets statutory requirements (VA only)*** | **n/a** |

*The content of this report should be considered alongside the Estyn team's Section 28 report.*
*I would like to thank Estyn inspection team for their welcome and cooperation.*
*I would like to thank the Headteacher, Staff, Governors and Pupils of Ysgol Foel Gron,*
*for their welcome and cooperation. God's blessing for the future.*
***The Reverend Robert Townsend 2 July 2012***

*Arolwg o dan Adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 - Report under Section 50 of the Education Act 2005*

**Holiadur Rhieni - YSGOL FOEL GRON - *Parents' Questionnaire***

**Yr oedd 12 ymateb - *There were 12 responses***

| | **YDWYF** | **NAC YDWYF** | |
|---|---|---|---|
| A ydych chi'n ymwybodol mai Ysgol Eglwys yw hon? | 12 - **100%** | | *Are you aware that this is a Church school?* |
| A ydych o'r farn fod yr ysgol yn sefydliad sydd wedi ei adeiladu ar sylfaen Gristnogol glir? | 12 - **100%** | | *Do you believe that the school is a place which is built upon clear Christian values?* |
| Ysgol Eglwys, sef ysgol gyda chymeriad Cristnogol, yw hon. A oedd y ffaith yma yn bwysig wrth i chi dewis ysgol i'ch plentyn / plant? | 7 - **58%** | 5 - **42%** | *This is a Church School, that is a school with a Christian character. Was this fact important when you were choosing a school for your child / children?* |
| | ***YES*** | ***NO*** | |

| | **Cytuno'n llwyr** | **Cytuno** | **Y naill na'r llall** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n llwyr** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae cymeriad Cristnogol nodedig yn perthyn i'r ysgol | 2 **17%** | 10 **83%** | | | | *The school has a distinctive Christian character* |
| Mae cymeriad Cristnogol nodedig yn gwneud cyfraniad awyddocaol i addysg y disgyblion. | 1 **8%** | 10 **83%** | 1 **8%** | | | *The school's distinctive Christian character makes a significant contribution to pupils'education.* |
| Ym marn y disgyblion, mae'r addoli ar y cyd yn brofiad gwerthfawr | 2 **17%** | 10 **83%** | | | | *Pupils find collective worship a valuable experience* |
| Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r eglwys leol a chymunedau ffydd eraill. | 5 **42%** | 6 **50%** | 1 **8%** | | | *The school has effective links with the local church and other faith communities.* |
| Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni yn dda am y gwaith a wna'r disgyblon mewn Addysg Grefyddol | 2 **17%** | 9 **75%** | 1 **8%** | | | *The school keeps parents well informed about the work pupils do in Religious Education* |
| Mae'r ysgol yn hybu'r disgyblion i ofalu am Greadigaeth Duw (yr amgylchfed), yn ogystal â'n nhw eu hunain. | 6 **50%** | 6 **50%** | | | | *The school encourages pupils to care for God's Creation (the environment), as well as for themselves.* |
| Mae'r ysgol yn hybu'r disgyblion i ystyried pobl mewn gwledydd eraill, a sut fedran nhw eu cynorthwyo pan bo angen. | 8 **67%** | 4 **33%** | | | | *The school encourages pupils to consider people in other countries, and how they can help assist them, when help is required.* |
| Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol. | 5 **42%** | 7 **58%** | | | | *The school ensures links are made with the local community.* |
| | ***Strongly Agree*** | ***Agree*** | ***Neither*** | ***Disagree*** | ***Strongly Disagree*** | |

**Enw'r Ysgol:Tudweiliog**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae'r disgyblion yn dangos diddordeb y maes Addysg Grefyddol ac yn mwynhau'r gwersi.
- Gwnant gynnydd da mewn Addysg Grefyddol.
- Maent yn ymwybodol o arferion o fewn crefyddau mawr y byd ac yn mwynhau straeon crefyddol.
- Cafwyd profiadau eang o fewn y pwnc megis ymweliad a mosg ac eglwys a chapel y pentref ac mae ymwydyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn datblygu wrth iddynt symud trwy'r ysgol
- Defnyddir dulliau o asesu ar gyfer dysgu i ymateb i waith disgyblion y fewn y maes megis 2 seren a dymuniad, marcio cyfoedion.
- Nodir yn adroddiad arolygiad Estyn , a gynhaliwyd yn Ionawr 2012 bod y disgyblion yn 'gwrtais ac yn dangos parch a gofal at oedolion ac at eu cyfoedion.'

**Materion i gael sylw**

- Astudio mwy o grefyddau gwahanol yn y CS
- Datblygu hyder y disgyblion i gyd-gynllunio cwestiynau allweddol o fewn y maes.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Rhoddir amser digonol i addysgu'r pwnc yn wythnosol drwy'r ysgol.
- Trwy'r arsylwadau gwersi gwelwyd
  - bod yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol
  - cwestiynu penagored yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion feddwl a myfyrio
  - defnydd effeithiol o asesu ar gyfer dysgu yn y gwersi ar draws y cwricwlwm a thystiolaeth o hynny yn y llyfrau gwaith
  - cydweithio a chydgynllunio effeithiol iawn rhwng y staff dysgu a'r tîm cymhorthyddion wrth gyfoethogi profiadau'r disgyblion
- Mae'r rhaglen astudio yn rhoi sylw i bob maes o fewn y pwnc drwy gynllunio ar sail 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn yng Nghyfnod allweddol 2 ;.
- Rhoddir cyfle i'r disgyblion gynllunio eu hunain drwy feddwl am gwestiynau sy'n cyd fynd a'r thema.
- Defnyddir adnoddau da i addysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys y pecyn Pwllyn yn y CS a'r pecyn Cwestiynau Pwysig mewn Crefydd gan UWIC.
- Nodir yn adroddiad arolygiad Estyn, a gynhaliwyd yn Ionawr 2012 - 'Mae'r profiadau dysgu ynghyd a chyfnodau cyd-addoli dyddiol yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn.'

**Materion i gael sylw**

- Parhau i ddatblygu hyder y disgyblion wrth drafod cwestiynau allweddol

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cynhelir gwasanaeth boreol bedair gwaith yr wythnos yn dorfol yn yr ysgol , ble cyflwynir amrywiaeth o staeon moesol a chrefyddol. Cynhelir gwasanaeth yn y dosbarthiadau unigol unwaith yr wythnos
- Mae datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwyllianol yn cael eu hyrwyddo o fewn y gwasanaethau.
- Bydd arweinyddion crefyddol yr ardal yn ymweld yn wythnosol i gynnal gwasanaethau, e.e y Gweinidog a'r Ficer lleol, a chyfeillion yr ysgol.
- O bryd i'w gilydd bydd y plant yn cael cyfle i gynllunio, a chymeryd rhan mewn gwasanaethau.
- Bydd y disgyblion yn cymeryd rhan blynyddol mewn gwasanaethau yn y gymdeithas e.e Cymanfa a gwasanaeth Nadolig yn y capel; a gwasanaeth Cristingl a Diolchgarwch yn Eglwys y plwyf.
- Cafwyd cyfleoedd i ddisgyblion ddangos empathi ac i ddangos diolchgarwch at elusennau megis Operation Christmas Child, Send a Cow, a'r RNIB.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Creu ardal fyfyrio yn yr ysgol.
- Y disgyblion I gymeryd mwy o ran yn y broses o gynllunio gwasanaethau.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Einir Davies (Pennaeth)

Dyddiad: Ionawr 9fed, 2013

# CYSAG'au a'r Gymuned Leol

## Adroddiad ar arolwg CCYSAGauC o GYSAG'au yng Nghymru

### Mehefin 2012

# CYSAG'au a'r Gymuned Leol

## Adroddiad ar arolwg CCYSAGauC o GYSAG’au yng Nghymru

**Mehefin 2012**

Cynhyrchwyd gan Ganolfan y Santes Fair ar ran CCYSAGauC ym Mehefin 2012
www.st-marys-centre.org.uk

© Tania ap Siôn 2012

## CYNNWYS

DIOLCHIADAU
CRYNODEB GWEITHREDOL 2

1 CYD-DESTUN YR AROLWG
1.1. Cyflwyniad 3
1.2. Rôl CYSAG'au 3
1.3. Rôl CCYSAGauC 4

2 CYNLLUN YR AROLWG
2.1. Cyflwyniad 5
2.1. Amcanion cyffredinol yr arolwg 5
2.2. Yr holiadur 5

3 CANLYNIADAU'R AROLWG
3.1. Cyflwyniad 7
3.2. Cynrychiolwyr CYSAG ar Bwyllgor A 7
3.3. Cynrychiolwyr cyfetholedig ar GYSAG'au 8
3.4. Cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill 9
3.5. CYSAG'au a chysylltiadau rhyng-ffydd lleol 13
3.6. Sylwadau ychwanegol 15
3.7. Crynodeb o'r canlyniadau 16

4 Y CAMAU NESAF
4.1. Cyflwyniad 18
4.2. Argymhellion i GYSAG'au 18
4.3. Argymhellion i GCYSAGauC 18

ATODIAD 1 Canlyniadau cyfosodedig yr arolwg (meintiol) 20
ATODIAD 2 Rhestr o'r CYSAG'au yng Nghymru a gymerodd ran 21
ATODIAD 3 Yr holiadur: CYSAG’au a'r Gymuned Leol 22
ATODIAD 4 Rhestr derbynyddion 26

## DIOLCHIADAU

Hoffai Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC gydnabod cyfraniadau'r cyrff canlynol at *CYSAG'au a'r Gymuned Leol: adroddiad ar arolwg CCYSAGauC o GYSAG'au yng Nghymru*.

- Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a NASACRE, am ddarparu'r cyd-destun ar gyfer yr arolwg;
- Y CYSAG'au yng Nghymru, am eu hymgysylltiad â'r arolwg;
- Canolfan y Santes Fair (rhan o elusen crefydd ac addysg Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn, Cymru), am gynllunio'r arolwg ac ysgrifennu adroddiad yr arolwg mewn cydweithrediad â Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Dylanwadwyd ar y cymhelliant i Gymdeithas CYSAG'au Cymru (CCYSAGauC) gynnal yr arolwg *CYSAG'au a'r Gymuned Leol* yng Nghymru, yn Ebrill 2010, gan ddau ffactor. Dros y pedair blynedd diwethaf, bu CCYSAGauC yn cefnogi nifer o fentrau cydlyniant cymunedol cenedlaethol yn weithredol, ac yn annog CYSAG'au i ymgysylltu â'r rhain. Rhoddwyd y gefnogaeth hon oherwydd bod CCYSAGauC yn gwerthfawrogi'r cyfraniad arbennig y mae addysg grefyddol, addoli ar y cyd, a ChYSAG'au yn gallu ei wneud i gydlyniant cymunedol yn ein cymunedau yng Nghymru. Fodd bynnag, gellir olrheinio'r symbyliad penodol i gynnal arolwg o GYSAG'au yng Nghymru at yr arolwg o GYSAG'au yn Lloegr a weinyddwyd gan Rwydwaith Rhyng-ffydd y DU a'r Gymdeithas CYSAG'au Genedlaethol (NASACRE) yn 2009. Yr oedd yr arolwg hwn o GYSAG'au yn Lloegr yn edrych ar y berthynas rhwng CYSAG'au a sefydliadau rhyng-ffydd lleol. Ar sail y ddau ffactor hyn, teimlai CCYSAGauC y buasai'n ddefnyddiol cynnal arolwg cyffelyb o GYSAG'au yng Nghymru, ond ehangu cwmpas yr arolwg i gynnwys meysydd eraill a oedd yn berthnasol i gydlyniant cymunedol a dealltwriaeth ryng-ffydd.

Mae'r adroddiad ar arolwg *CYSAG'au a'r Gymuned Leol* yn cyflwyno canfyddiadau arolwg CCYSAGauC o GYSAG'au, a gafodd raddfa ymateb o 95%. Mae'r canfyddiadau yn ymwneud â phedwar prif faes: cynrychiolwyr CYSAG ar Bwyllgor A (Enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau); cynrychiolwyr cyfetholedig CYSAG'au; cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol ac â chrefyddau eraill a'u henwadau; a chysylltiadau CYSAG'au gyda sefydliadau rhyng-ffydd lleol a mentrau rhyng-ffydd lleol eraill. Mae'r canlyniadau'n cyflwyno'r ystod o weithgareddau gan GYSAG'au sy'n cyfrannu at agweddau perthnasol ar gydlyniant cymunedol, gan gynnwys enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn eu hardaloedd, ac fe nodir wyth o brif ganfyddiadau.

O ran y camau nesaf sydd i'w cymryd yng ngolau'r Adroddiad, gofynnir i GYSAG'au yng Nghymru a ChCYSAGauC ymateb i'r arolwg drwy roi ystyriaeth i argymhellion yr Adroddiad.

**Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC**
**Mehefin 2012**

# 1 CYD-DESTUN YR AROLWG

## 1.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn gosod cyd-destun yr adroddiad drwy gyflwyno'r cefndir i Arolwg *CYSAG'au a'r Gymuned Leol*, a thrwy ddarparu trosolwg ar rôl y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG'au) a rôl Cymdeithas CYSAG'au Cymru (CCYSAGauC).

Ar 12 Mehefin 2009, cynhaliodd Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a Chymdeithas Genedlaethol CYSAG'au (NASACRE) Lloegr seminar ar y thema 'Local Interfaith Organisations and Standing Advisory Councils on Religious Education: working together for understanding and community cohesion'. Un o amcanion y seminar oedd rhannu canfyddiadau arolwg gan NASACRE a Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a oedd wedi edrych ar y berthynas a'r cydweithrediad rhwng CYSAG'au a sefydliadau rhyng-ffydd lleol. Yr oedd yr arolwg hwn yn cynnwys dau holiadur: un ar gyfer sefydliadau rhyng-ffydd lleol yng Nghymru a Lloegr, ac un ar gyfer CYSAG'au yn Lloegr. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r arolwg ac adroddiad llawn ar y seminar gan Rwydwaith Rhyng-ffydd y DU a NASACRE yn 2010.

Mewn ymateb i'r seminar (lle'r oedd CCYSAGauC wedi ei chynrychioli ar y Panel), gwelodd CCYSAGauC y byddai budd mewn dosbarthu fersiwn addasedig o'r holiadur ar gyfer CYSAG'au i'r 22 CYSAG yng Nghymru. Dylanwadwyd ar y penderfyniad i weithredu'r holiadur (gydag addasiadau ar gyfer Cymru) gan ddau brif ffactor.

Yn gyntaf, nid oedd CYSAG'au yng Nghymru wedi eu cynnwys yn yr arolwg gwreiddiol, ac yr oedd yr arolwg yn canolbwyntio ar feysydd a oedd o ddiddordeb o ran gwaith CCYSAGauC a ChYSAG'au yng Nghymru, gyda golwg arbennig ar 'gydlyniant cymunedol'. Mae CCYSAGauC a ChYSAG'au yng Nghymru'n ymwybodol o'r rôl arbennig y maent yn ei chwarae mewn cydlyniant cymunedol, o safbwynt eu cyfansoddiadau cynhenid (drwy gynrychiolaeth amrywiaeth o gymunedau ffydd ar GYSAG'au ac ar CCYSAGauC, a natur y meysydd cwricwlwm y maent yn ymwneud â hwy) ac o safbwynt eu gweithgareddau cyfredol (drwy eu cyfraniad at y prosiect AtGyfnerthu a'r mis Dathlu AG, yn ogystal â chydgysylltiadau â Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU, Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr, Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol, a'r Comisiwn Rhyng-Ewropeaidd ar Eglwys ac Ysgol).

Yn ail, cydnabuwyd bod Cymru'n wahanol i Loegr, ac y byddai angen addasu'r holiadur gwreiddiol i GYSAG'au os oedd am gael at fanylion ymarferiad cyfredol a oedd yn berthnasol i gydlyniant cymunedol, ar gyfer CYSAG'au yng Nghymru. Yr oedd yr holiadur gwreiddiol i GYSAG'au yn canolbwyntio ar gydberthynas CYSAG'au â grwpiau rhyng-ffydd lleol, sydd yn llawer llai niferus yng Nghymru nag yn Lloegr. Felly, cafodd yr holiadur a ddosbarthwyd i GYSAG'au yng Nghymru ei ailgysyniadu i gynnwys dealltwriaeth ehangach o gydberthynas CYSAG'au â'r gymuned leol.

## 1.2 Rôl CYSAG'au

Mae'n ofynnol ar bob Awdurdod Lleol, o dan y gyfraith, i sefydlu CYSAG. Prif rôl CYSAG'au yw monitro ac ategu'r ddarpariaeth o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn ardal yr Awdurdod

Lleol. Daeth y ddarpariaeth o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, mewn ysgolion cymunedol a gynhelir gan y wladwriaeth ac mewn ysgolion y wladwriaeth sydd â chymeriad crefyddol, yn ofyniad statudol pan ddaeth Deddf Addysg 1944 i rym. Ychwanegwyd eglurhad a hyblygrwydd pellach at y gofynion cyfreithiol gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Yr oedd Deddf Diwygio Addysg 1988 yn dynodi addysg grefyddol yn rhan statudol o'r cwricwlwm sylfaenol sydd i'w benderfynu ar lefel Awdurdod Lleol, yn wahanol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n cael ei benderfynu ar lefel genedlaethol. Tra bod Deddf Addysg 1944 wedi awdurdodi pob awdurdod lleol i sefydlu CYSAG, yr oedd Deddf Diwygio Addysg 1988 yn gwneud hyn yn ddyletswydd statudol.

Mae CYSAG'au yng Nghymru'n cynnwys tri phwyllgor, yn unol â'r gofyniad statudol sydd wedi ei ddatgan ym mharagraff 390 o Ddeddf Addysg 1996.

*Pwyllgor A:* Cynrychiolwyr enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal leol.
*Pwyllgor B:* Cynrychiolwyr athrawon.
*Pwyllgor C:* Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol.

Gall CYSAG ddewis cyfethol aelodau, lle'r ystyrir bod hyn yn cyfrannu at waith y CYSAG.

### 1.3 Rôl CCYSAGauC

Mae CYSAG'au y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i gyd yn aelodau o CCYSAGauC. Cafodd CCYSAGauC ei ffurfio ym 1995 i ddarparu fforwm cenedlaethol ar gyfer cyfnewid arfer da a chynrychioli amcanion cyffredinol, gwaith a barn ei haelod-GYSAG'au. Yn ychwanegol at hynny, mae CCYSAGauC yn cyfrannu at fentrau cenedlaethol ym meysydd addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, ac yn cysylltu ar ran CYSAG'au â chyrff a sefydliadau perthnasol yng Nghymru, Lloegr ac Ewrop. Mae'r cyrff a'r sefydliadau hyn yn cynnwys, ymysg eraill:

- Llywodraeth Cymru;
- Y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG);
- CBAC;
- Estyn;
- Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC);
- Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr (CAG);
- Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU;
- Cymdeithas Genedlaethol CYSAG'au (NASACRE) Lloegr;
- Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol;
- Y Comisiwn Rhyng-Ewropeaidd ar Eglwys ac Ysgol).

# 2 CYNLLUN YR AROLWG

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys amcanion cyffredinol yr arolwg a sut y cafodd yr holiadur ei gynllunio, ei weithredu a'i ddadansoddi.

## 2.2 Amcanion cyffredinol yr arolwg

Nod yr arolwg oedd galluogi CCYSAGauC i fapio'r gydberthynas rhwng CYSAG'au a'u cymunedau lleol, a rhannu gwybodaeth, profiadau ac ymarferiad mewn perthynas â phedwar maes penodol:

- Cynrychiolwyr CYSAG ar Bwyllgor A (Enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau);
- Cynrychiolwyr cyfetholedig ar GYSAG'au;
- Cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol ac â chrefyddau eraill a'u henwadau;
- Cysylltiadau CYSAG'au gyda sefydliadau rhyng-ffydd lleol a mentrau rhyng-ffydd lleol eraill.

## 2.3 Holiadur yr Arolwg

***Dull***

Yr oedd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn yr arolwg wedi ei seilio ar holiadur Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a NASACRE ar gyfer CYSAG'au, a gafodd ei weithredu yn Ebrill 2009 ac a oedd yn edrych ar y gydberthynas rhwng sefydliadau rhyng-ffydd lleol a ChYSAG'au yn Lloegr. Cafodd yr holiadur hwn ei addasu'n helaeth er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai cymharol ychydig o sefydliadau neu fforymau rhyng-ffydd lleol sydd gan Gymru, ac er mwyn casglu ystod ehangach o wybodaeth am ymarferiad sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol mewn perthynas â ChYSAG'au a'r gymuned leol.

Cafodd yr addasiadau canlynol eu gwneud i holiadur gwreiddiol Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a NASACRE.

- Ychwanegwyd tair adran at fersiwn Cymru o'r holiadur. Yr oeddynt yn edrych ar gynrychiolwyr CYSAG ar Bwyllgor A, cynrychiolwyr cyfetholedig ar GYSAG'au, a chydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill.
- Yr oedd Adran D o holiadur Cymru, a oedd yn ymwneud â ChYSAG'au a chysylltiadau rhyng-ffydd lleol, yn atgynhyrchu i raddau helaeth holiadur gwreiddiol Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU a NASACRE, er bod rhai cwestiynau wedi eu cyfuno'n un cwestiwn, neu wedi eu hail-weithio, neu wedi eu hepgor.
- Trefnwyd bod yr holiadur ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, mewn cydnabyddiaeth o gymeriad dwyieithog Cymru.

***Y Weithdrefn***

Cafodd fersiynau Cymraeg a Saesneg eu he-bostio at glercod y cyfan o'r 22 CYSAG yng Nghymru yn Ebrill 2010, gyda chais am i holiadur y CYSAG'au gael ei drafod a'i gwblhau yn

ystod cyfarfod tymor yr haf pob CYSAG, a'i ddychwelyd at Ysgrifennydd CCYSAGauC erbyn 20 Gorffennaf 2010. Mae copi o'r holiadur a gylchredwyd i GYSAG'au wedi ei gynnwys ar ffurf atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

***Dadansoddiad***

Cafodd yr holiaduron eu dadansoddi gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol. Yn y lle cyntaf, cynhyrchwyd trosolwg meintiol gan ddefnyddio SPSS, drwy roi'r ymateb i bob cwestiwn mewn un o dri chategori: 'ie', 'na', neu 'dim ymateb' (?). Yr oedd y categori 'ie' yn cynnwys ymatebion a oedd wedi dewis yr opsiwn 'ie' a gynigiwyd yn y cwestiwn neu, mewn cwestiynau lle na chynigiwyd yr opsiwn hwn, wedi ymateb yn gadarnhaol i gwestiwn uniongyrchol. Yr oedd y categori 'na' yn cynnwys ymatebion a oedd wedi dewis yr opsiwn 'na' a gynigiwyd yn y cwestiwn neu, mewn cwestiynau lle na chynigiwyd yr opsiwn hwn, wedi ymateb yn negyddol i gwestiwn uniongyrchol. Yr oedd y categori 'dim ymateb' (?) yn cynnwys naill ai diffyg ymateb neu ymateb lle'r oedd safbwynt y CYSAG yn cael ei ddynodi gan y CYSAG ei hun fel un a oedd yn aneglur. Defnyddiwyd SPSS i gynhyrchu trosolwg meintiol o amleddau ymatebion ar gyfer pob cwestiwn; a (lle'r oedd yn berthnasol) cafodd ymatebion i gwestiynau dethol eu trawstablu er mwyn edrych ar y cydberthnasau rhwng cwestiynau.

Yn dilyn y dadansoddiad meintiol, gwnaed dadansoddiad o gynnwys, a oedd yn categoreiddio ac yn disgrifio'r ymatebion ysgrifenedig i bob cwestiwn.

# 3 CANLYNIADAU'R AROLWG

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canlyniadau'r arolwg. O'r 22 CYSAG yng Nghymru, cafodd holiaduron a oedd wedi eu cwblhau'n llawn eu dychwelyd gan 21. Mae rhestr o'r CYSAG'au hyn wedi ei chynnwys ar ffurf atodiad 2. Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn cyflwyno ymatebion y CYSAG'au i bob un o bum adran yr holiadur, o safbwynt meintiol ac o safbwynt ansoddol. Y pum adran yw:

- Cynrychiolwyr CYSAG ar Bwyllgor A (Adran A);
- cynrychiolwyr cyfetholedig ar GYSAG'au (Adran B);
- cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill (Adran C);
- CYSAG'au a chysylltiadau rhyng-ffydd lleol;
- sylwadau ychwanegol.

Mae canlyniadau (meintiol) cyfosodedig yr arolwg wedi eu cynnwys ar ffurf atodiad 1.

## 3.2. Cynrychiolwyr CYSAG ar Bwyllgor A (Adran A)

***Pwy a gynrychiolir ar Bwyllgor A?***

Nododd pob un o'r 21 CYSAG pwy oedd y cynrychiolwyr ar Bwyllgor A (hynny yw, cynrychiolwyr enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal). Yr oedd gan y 21 CYSAG i gyd leoedd ar gyfer un neu ragor o gynrychiolwyr yr Eglwysi Rhyddion a'r Eglwys yng Nghymru; yr oedd gan 20 CYSAG le ar gyfer cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig; ac yr oedd gan un CYSAG le ar gyfer cynrychiolydd o'r Eglwys Bentecostaidd. Ar gyfer crefyddau eraill, yr oedd lle i Fwslim ar 9 o GYSAG'au, lle i Sikh ar 7 o GYSAG'au, lle i Hindŵ ar 7 o GYSAG'au, lle i Iddew ar 6 o GYSAG'au, lle i Fwdhydd ar 4 o GYSAG'au, a lle i gynrychiolydd o ffydd y Baha'i ar 3 o GYSAG'au. (Fodd bynnag, ynglŷn ag aelodaeth gyfetholedig, gweler 3.3.)

Yr oedd y CYSAG'au hynny a oedd â chynrychiolwyr o grefyddau eraill yn ogystal ag enwadau Cristnogol ar Bwyllgor A yn tueddu i fod yn lleoledig yn ne-ddwyrain Cymru, lle mae'r boblogaeth yn fwy niferus ac amrywiol; yr oedd un CYSAG yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn ceisio ymestyn aelodaeth i grefyddau eraill, mewn ymateb i ddemograffeg gyfnewidiol yr ardal.

***Sicrhau cynrychiolaeth ar Bwyllgor A***

O'r 21 CYSAG, nododd 16 broblem o ran sicrhau cynrychiolaeth briodol ar gyfer enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau; yr oedd 4 CYSAG nad oedd wedi profi unrhyw broblem o'r fath; ac yr oedd 1 CYSAG nad ymatebodd i'r cwestiwn. Ymysg y CYSAG'au a nododd fod problem, adroddodd rhai ynglŷn â phrofiad yn y gorffennol lle'r oedd y broblem wedi ei datrys, a disgrifiodd eraill brofiad cyfredol lle nad oedd y broblem wedi ei datrys. O ran sicrhau cynrychiolaeth o enwadau Cristnogol, yr oedd 8 CYSAG wedi ei chael yn anodd llenwi seddi gwag ar gyfer yr Eglwysi Rhyddion; mewn pump o'r achosion hyn, fodd bynnag, yr oedd hynny wedi ei datrys yn llwyddiannus gyda chymorth Cytûn. Yr oedd 3 ChYSAG a adroddodd am anawsterau i lenwi seddi gweigion ar gyfer yr Eglwys Gatholig.

O ran sicrhau cynrychiolaeth o grefyddau eraill a'u henwadau, adroddodd 9 o GYSAG'au eu bod wedi cael anawsterau. Yr oedd yr anawsterau hyn yn clystyru o amgylch tri maes: yn gyntaf, problem canfod cyrff cynrychiadol addas ar gyfer crefyddau eraill a fuasai'n gallu darparu cymorth i ganfod cynrychiolwyr; yn ail, problem diffyg presenoldeb rheolaidd rhai aelodau o grwpiau perthnasol mewn cyfarfodydd CYSAG (gan gynnwys rhai a oedd eisoes yn aelodau, a rhai y cysylltwyd â hwy gyda golwg ar iddynt ddod yn aelodau); yn drydydd, problem y niferoedd bychain a oedd yn perthyn i grefyddau eraill yn yr ardal leol; yr oedd hyn yn effeithio ar benderfyniadau a oedd yn ymwneud â diffiniadau o gynrychiolaeth gymunedol leol briodol.

Mynegodd nifer o GYSAG'au eu hymrwymiad i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol o grefyddau eraill ar Bwyllgor A; manylodd rhai ar eu gweithgarwch cyfredol mewn perthynas â'r amcan hwn. Dywedodd CYSAG'au eraill eu bod yn gwahodd unigolion o grefyddau nas cynrcyhiolid i gyfarfodydd CYSAG pan oedd hynny'n briodol, ac yn eu cynnwys wrth gynnull cynadleddau maes llafur. Gwnaeth nifer o GYSAG'au y sylw yn ogystal eu bod wedi defnyddio ystadegau'r Cyfrifiad a oedd yn ymwneud â'r cwestiwn ar 'grefydd' i oleuo'u hadolygiad o aelodaeth Pwyllgor A.

Er gwaethaf y problemau a gafwyd gan rai CYSAG'au o ran sicrhau cynrychiolaeth briodol, yr oedd 15 o'r 21 CYSAG yn hyderus fod Pwyllgor A yn adlewyrchu'r enwadau Cristnogol perthnasol, a'r crefyddau perthnasol eraill a'u henwadau, yn ardal eu Hawdurdod Lleol. Cyfeiriodd y 6 ChYSAG arall yn ôl at eu hymatebion i gwestiwn 2 yn yr adran hon; yr oedd 4 o'r ymatebion yn ymwneud â chanfod cynrychiolwyr o enwadau Cristnogol penodol, a 2 ymateb yn ymwneud â sicrhau cynrychiolaeth o grefyddau eraill.

***Tabl 1: cynrychiolaeth CYSAG ar Bwyllgor A (N = 21)***

| *Adran A* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| A1 nodwyd cynrychiolwyr | 21 | 0 | 0 |
| A2 problemau o ran sicrhau cynrychiolaeth | 16 | 4 | 1 |
| A3 Pwyllgor A yn gynrychiadol o'r ardal leol | 15 | 6 | 0 |

### 3.3. Cynrychiolaeth gyfetholedig ar GYSAG'au (Adran B)

***Pwy sy'n cael eu cyfethol i GYSAG'au?***

O'r 21 CYSAG, yr oedd gan 15 un neu ragor o aelodau cyfetholedig. Yr oedd y rhain yn cynnwys athrawon unigol (7 CYSAG), Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain (5 CYSAG), Canolfannau Addysg Grefyddol yng Nghymru (6 ChYSAG), Mudiad Efengylaidd Cymru (3 ChYSAG), Cyngor Ysgolion Sul Cymru (2 GYSAG), Ysgolion cyfrwng Cymraeg (2 GYSAG), yn ogystal â chyfetholiadau a oedd yn bodoli mewn un CYSAG yn unig — Mwslim, Bwdhydd, Baha'i, Sikh, Pentecostaidd, Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC), Coleg Addysg Bellach, a Choleg Addysg Uwch.

***Cyfetholiadau a'r ardal leol***

Dim ond un o'r 21 CYSAG a adroddodd nad oedd yn fodlon fod ei gynrychiolaeth gyfetholedig yn addas yr gyfer yr ardal; nododd yr hoffai'r CYSAG sefydlu cyswllt â Sefydliad Hyfforddiant

Cychwynnol Athrawon lleol, ond nad oedd cynrychiolydd ar gael. Fodd bynnag, o'r CYSAG'au hynny a oedd yn fodlon â'u cynrychiolaeth gyfetholedig gyfredol, gwnaeth 2 y sylw y buasent yn croesawu ystyriaeth o gyfetholiadau newydd, a gwnaeth un y sylw ei fod, er nad oedd ganddo aelodau cyfetholedig ar y pryd, yn agored i drafodaeth ynglŷn ag aelodau cyfetholedig o ganlyniad i'r holiadur.

***Tabl 2: Cynrychiolaeth gyfetholedig (N = 21)***

| *Adran B* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| B1 aelodau cyfetholedig ar y CYSAG | 15 | 6 | 0 |
| B2 aelodaeth gyfetholedig yn addas ar gyfer yr ardal leol | 20 | 1 | 0 |

### 3.4 Cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill (Adran C)

***Cysylltiadau'r CYSAG yn yr ardal leol***

O ran eu hardal leol, darparodd y 21 CYSAG i gyd restr o enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yr oedd ganddynt gysylltiadau â hwy. O'r rhain, rhestrodd 13 CYSAG gysylltiadau gydag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill, rhestrodd 7 CYSAG gysylltiadau gydag enwadau Cristnogol yn unig, a rhestrodd 1 CYSAG gysylltiad gyda chrefydd arall yn unig. Tueddai'r CYSAG'au hynny a oedd â chysylltiadau ag enwadau Cristnogol yn unig i fod mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru.

Nododd bron y cyfan o'r CYSAG'au (19) fod aelodaeth y CYSAG ar Bwyllgor A yn gysylltiad pwysig â chyrff a chymunedau crefyddol yn yr ardal leol, ac yr oedd 12 ohonynt hefyd yn nodi cysylltiadau cymunedol lleol y tu allan i'r CYSAG.

Yr oedd y cysylltiadau allanol yr oedd gan GYSAG'au yn y gymuned yn ymwneud ag amrywiaeth o enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill. Yr oedd y rhai a oedd yn ymwneud ag enwadau Cristnogol yn cynnwys cymunedau ffydd lleol penodol neu gyrff eciwmenaidd megis ‘Cytûn’, ‘Eglwysi Ynghyd’, neu Gymrodoriaeth Arweinwyr Eglwysig, er enghraifft. Yr oedd y rhai a oedd yn ymwneud â chrefyddau eraill yn cynnwys cymunedau ffydd lleol penodol yn ogystal â rhai a oedd yn dod â chynrychiolwyr nifer o gymunedau ffydd at ei gilydd, er enghraifft y Cynulliad Arweinwyr Pob Ffydd, grwpiau rhyng-ffydd lleol, a Fforwm Ffydd y Cymoedd. Cafwyd nifer o enghreifftiau o GYSAG’au a oedd yn ystyried bod eu cysylltiadau'n cynnwys sefydliadau addysg megis eu hysgolion â chymeriad crefyddol, a sefydliad Addysg Uwch lleol a oedd yn darparu cysylltau ag ystod amrywiol o gysylltiadau, ac yr oedd hyn yn adnodd defnyddiol i'r CYSAG.

Lle disgrifiwyd natur y cydberthnasau hyn, daeth nifer o themâu i'r golwg. Yn gyntaf, mewn rhai achosion yr oedd aelodau CYSAG yn ymwneud â chorff neu fforwm ac yn adrodd yn ôl i'r CYSAG ar ei weithgarwch. Yn ail, yr oedd rhai CYSAG'au yn gwahodd y grwpiau hyn i wneud cyflwyniadau yn eu cyfarfodydd. Yn drydydd, yr oedd rhai CYSAG'au wedi sefydlu cysylltiadau drwy weithio ar fentrau cyfrannol, megis Diwrnod Cofio'r Holocost. Yn bedwerydd, yr oedd rhai CYSAG'au yn cynnal eu cyfarfodydd mewn addoldy gwahanol bob tymor, ac yr oedd hyn yn

cynnwys teithiau tywysedig a chyflwyniadau gan eu gwesteiwyr. Yn bumed, yr oedd rhai CYSAG'au yn cynnal eu cyfarfodydd mewn ysgolion â chymeriad crefyddol, megis ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgolion Catholig (yr oedd un CYSAG wedi derbyn cyflwyniad gan ysgol Gatholig ynglŷn ag athroniaeth yr ysgol, addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, a'i pherthynas â'r gymuned leol).

***Cysylltiadau CYSAG'au y tu allan i'r ardal leol***

O ran cysylltiadau y tu allan i'r ardal leol, adroddodd 17 o'r 21 CYSAG fod ganddynt gysylltiadau a oedd yn ymwneud ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill, a rhoddasant fanylion. O'r rhain, nododd 12 CYSAG fod ganddynt gysylltiadau ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill, nododd 3 ChYSAG fod ganddynt gysylltiadau ag enwadau Cristnogol yn unig, a nododd 2 GYSAG fod ganddynt gysylltiadau â chrefyddau eraill yn unig.

Yr oedd y cysylltiadau yr oedd CYSAG'au wedi eu gwneud y tu allan i'r ardal leol yn eang eu cwmpas. Ymysg cysylltiadau yn ymwneud â Christnogaeth, nodwyd y sefydliadau canlynol — fel rheol yr oeddynt yng Nghymru, ond cafwyd ychydig yn Lloegr: Cymorth Cristnogol, Cyngor Ysgolion Sul Cymru, Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC), *Christian Education*, a Cytûn. Yn ogystal â hynny, yr oedd cysylltiadau enwadol Cristnogol yn bodoli drwy aelodau CYSAG'au ar lefel ranbarthol ehangach ac ar lefel genedlaethol.

Ymysg cysylltiadau a oedd yn ymwneud â Christnogaeth, a chysylltiadau a oedd yn ymwneud â chrefyddau eraill, yr oedd rhai CYSAG'au wedi datblygu cysylltiadau ag amrywiaeth o gymunedau ffydd mewn gwahanol awdurdodau lleol. Yn achos rhai CYSAG'au, yr oedd cymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau hefyd wedi creu'r cysylltau allanol ehangach hyn: er enghraifft, Diwrnodau Profiad Eglwysi Cadeiriol, yr Arddangosfa ar y Ffordd Iddewig o Fyw, a Gŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd, a oedd wedi galluogi cysylltau â Cytûn, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, a'r gymuned Fwdhaidd yn Birmingham.

Adroddodd nifer o GYSAG’au fod CCYSAGauC wedi dod â chynrychiolwyr CYSAG'au o bob rhan o Gymru at ei gilydd, a bod hynny wedi ehangu eu hystod o gysylltiadau ac wedi eu cysylltu â mentrau perthnasol. Yn ychwanegol at hynny, yr oedd nifer o GYSAG'au yn gallu cael at amrywiaeth ehangach o gysylltiadau pan oedd Ymgynghorydd AG yn gysylltiedig hefyd â ChYSAG neu GYSAG'au eraill. Yr oedd yr adnoddau addysgol a oedd yn cael eu cynhyrchu gan wahanol sefydliadau crefyddol, megis y CD-ROM ar y Ffordd Iddewig o Fyw, ‘REQuest’, a deunydd yr Eglwys yng Nghymru, yn ffordd arall o gael at amryfal gymunedau ffydd.

***Cysylltiadau CYSAG'au â phrosiectau neu weithgareddau lleol***

O'r 21 CYSAG, adroddodd 18 ynglŷn â’u gwaith mewn prosiectau neu weithgareddau a oedd yn cynnwys enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn eu hardal leol. O'r rhain, nododd 16 CYSAG brosiectau a oedd yn cynnwys enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill, tra cyfeiriodd 2 GYSAG at brosiectau a oedd yn cynnwys enwadau Cristnogol yn unig. Yr oedd llawer o'r prosiectau hyn yn syrthio i dri chategori eang: prosiectau a gychwynnwyd gan GYSAG'au; prosiectau lle'r oedd CYSAG'au yn gyfranwyr ymrwymedig; a phrosiectau y cynigiodd CYSAG'au gymorth iddynt mewn ffyrdd eraill.

Yr oedd prosiectau a gychwynnwyd gan GYSAG'au yn cynnwys: sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr ffydd a oedd ar gael i ymweld ag ysgolion i ategu'r ddarpariaeth o AG; cyfansoddi cyfeiriadur o addoldai a chymunedau lleol a oedd yn addas ar gyfer ymweliadau ysgol; taflenni gofal bugeiliol a grëwyd gan y ffydd Iddewig a ffydd y Baha'i; trefnu ymweliadau ag addoldai yr oedd gan aelodau o Bwyllgorau A gysylltiad â hwy; derbyn cyflwyniadau gan sefydliadau ac elusennau lleol ynglŷn â'u gwaith yn y gymuned a'u perthynas ag ysgolion; cynnal arolwg CYSAG ynglŷn â chymunedau crefyddol lleol, a ddeilliodd ar grynodeb o addoldai a oedd yn fodlon croesawu ymweliadau ysgol; darparu Darlith Flynyddol; trefnu diwrnod hyfforddi ynglŷn â defodau newid byd, ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 (bu nifer o eglwysi'n gysylltiedig â hyn).

Yr oedd prosiectau lle'r oedd CYSAG'au yn gyfranwyr ymrwymedig yn cynnwys: Diwrnod Cofio'r Holocost ac amrywiaeth o ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â hwn; yr Ŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd; cynadleddau ar gyfer ysgolion ar bynciau megis AG ac ADCDF, a chydlyniant cymunedol; Diwrnodau Profiad Eglwysi Cadeiriol; fforwm rhyng-ffydd un ysgol; Bws Byw GSUS yn ymweld ag ysgolion uwchradd mewn ardal; prosiect labrinth ar gyfer y Pasg, yn gweithio gydag ysgolion eglwysig ac ysgolion cynradd ar dreialu'r prosiect a'i ledaenu i lefel sirol.

Yr oedd prosiectau yr oedd CYSAG'au wedi cynnig eu cymorth iddynt mewn ffyrdd eraill yn cynnwys: mynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau (er enghraifft, yr arddangosfa ar Anne Frank), ac annog eu hysgolion i gymryd rhan; cysylltiadau gyda phrosiect ar gyfer pobl ifanc wedi dadrithio mewn ardal, drwy aelod o'r CYSAG; gweithio gyda Chymorth Cristnogol i ddarparu gweithdai a chynadleddau i ysgolion; lansio copi o fosg symudol sydd ar gael i ysgolion.

Yr oedd prosiectau eraill a enwyd, ond lle na ddisgrifiwyd cysylltiad CYSAG'au â hwy, yn cynnwys: JC2000; lleoedd cysegredig; Rhwydwaith yr Eglwysi Agored; Wythnos Weddïo; gardd ffydd mewn ysgol; a gwaith Ymddiriedolaeth Agathos gydag ysgolion.

***Cysylltiad CYSAG'au â mentrau cydlyniant cymunedol lleol eraill***

O'r 21 CYSAG, adroddodd 15 ynglŷn â'u cysylltiad â mentrau eraill a oedd yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn eu hardal leol.

Yr oedd y mentrau hyn yn cynnwys: hyrwyddo arolygon ar gyfer y DU benbaladr mewn ysgolion lleol (er enghraifft, arolwg y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau o Agweddau Pobl Ifanc at Amrywiaeth Grefyddol) a sicrhau cyfranogiad ysgolion; derbyn cyflwyniadau gan ysgolion ac eraill a oedd wedi cymryd rhan mewn prosiectau perthnasol (er enghraifft, ymweliadau 'Gwersi o Auschwitz' a menter 'Tŷ Crefyddau' un ysgol); derbyn cyflwyniadau ar gydlyniant cymunedol (er enghraifft, gwaith CCHC i ddatblygu agweddau ar gydlyniant cymunedol mewn ysgol gynradd leol); cysylltiadau gyda'r prosiect 'Dod Ymlaen Â'n Gilydd'; cynnwys, ar GYSAG, gynrychiolydd o Wasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdod Lleol, a oedd yn rhoi cyflwyniadau ar waith y Gwasanaeth i hybu cydlyniant cymunedol a chynorthwyo grwpiau lleiafrif ethnig); cysylltiadau gyda Siarter Un Wrecsam; cynnwys ysgolion yng ngweithgareddau HMD yr Awdurdod Lleol (drwy gynrychiolwyr athrawon ar y CYSAG) a fynychwyd gan aelodau'r CYSAG yn ogystal; croesawu arddangosfa Iddewig a oedd yn agored i

ysgolion a'r gymuned ehangach; gweithio gyda'r heddlu ac aelodau'r cyhoedd i atal gorymdaith wrth-Fwslimaidd yn y gymdogaeth.

Teimlai CYSAG'au fod cynhyrchu adnoddau, cyfarwyddyd, a hyfforddiant yn weithgarwch o sylwedd. Nododd nifer o GYSAG'au eu rôl mewn perthynas â meysydd llafur cytûn a deunyddiau ategol; yr oeddynt yn sicrhau bod y rhain yn addas a'u bod yn ategu cydlyniant cymunedol o ran eu cynnwys a'u harweiniad i wybodaeth leol. Ysgrifennodd un CYSAG am niferoedd bychain y cymunedau crefyddol yn ardal yr Awdurdod Lleol nad oeddynt yn Gristnogol; yr oedd wedi mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant ar gyfer ysgolion ynglŷn â defnyddio doliau persona, yn ogystal â threfnu bod adnoddau AG ar gael ar wefan. Yr oedd enghreifftiau penodol eraill o adnoddau a gynhyrchwyd gan GYSAG'au yn cynnwys: Deunydd AG ategol ar gyfer cylchoedd chwarae a meithrinfeydd lleol nas cynhelid; rhestr o wefannau ynglŷn ag addoldai lleol, ar gyfer ysgolion; DVD o'r enw 'Faith Matters in Education' ar gyfer cyfleu rôl a gwaith CYSAG. Nododd nifer o GYSAG'au eu cefnogaeth i'r prosiect AtGyfnerthu cenedlaethol, a oedd yn darparu hyfforddiant i athrawon AG mewn meysydd a oedd yn uniongyrchol berthnasol i gydlyniant cymunedol.

***A all CYSAG'au hybu cysylltiadau rhwng ffydd a'r gymuned ymhellach?***
O'r 21 CYSAG, meddyliodd 15 am ffyrdd y gallent hybu ymhellach eu cydberthynas ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn yr ardal leol.

Canolbwyntiodd ymatebion CYSAG'au ar barhau â gwaith a gweithgareddau cyfredol y CYSAG, ac ar edrych ar feysydd newydd a'u datblygu. Ymysg y meysydd newydd hyn, yr oedd CYSAG'au yn bwriadu cysylltu â chymunedau crefyddol newydd gyda golwg ar iddynt sefydlu cysylltau â'r CYSAG ac yna gydag ysgolion; hybu rhagor o ymweliadau ysgol â chymunedau ffydd, a rhagor o ymweliadau gan ymwelwyr ffydd ag ysgolion; annog ysgolion i hybu cyfleoedd ar gyfer deialog rhyng-ffydd naill ai oddi mewn i'r ysgol neu ar draws ysgolion; cynnig rhagor o ddiwrnodau rhyng-ffydd mewn ysgolion; datblygu gwefan y CYSAG er mwyn darparu cyfleoedd i gymunedau ffydd rwydweithio, fel y byddai'n briodol; dathlu 400$^{fed}$ pen-blwydd Beibl y Brenin Siâms; trafod defnyddio aelodaeth gyfetholedig i gynnwys, lle'r oedd yn briodol, grefyddau eraill nas cynrychiolid.

Cyfeiriodd nifer o ymatebion y CYSAG'au at rôl sylweddol y mis Dathlu AG a oedd ar ddod (Mawrth 2011), o ran datblygu cydberthynas gynhyrchiol â chymunedau ffydd lleol a gwella'u perthynas ag ysgolion.

***A all CYSAG'au hybu cydlyniant cymunedol ymhellach?***
O'r 21 CYSAG, meddyliodd 14 am ffyrdd pellach y gallent hybu cydlyniant cymunedol yn eu hardal leol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebion yn ôl at y cwestiwn blaenorol ynglŷn â sut y gallai CYSAG'au hyrwyddo ymhellach eu cydberthynas ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn yr ardal leol. Ymysg y pwyntiau nad oedd wedi eu cynnwys o'r blaen, nodwyd y mentrau canlynol: datblygu gwefan y CYSAG er mwyn hybu gwaith y CYSAG ac ysgolion lleol; dosbarthu cylchlythyr y CYSAG yn ehangach; gwahodd swyddogion a oedd yn gyfrifol am gydlyniant cymunedol i annerch y CYSAG.

Gwnaeth un CYSAG y sylw fod anghenion, cyfleoedd a chyllid yn brin yn yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r maes hwn.

***Tabl 3: Cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill (N = 21)***

| *Adran C* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| C1 cysylltiadau yn yr ardal leol wedi eu rhestru | 21 | 0 | 0 |
| C2 cysylltiadau y tu allan i'r ardal leol wedi eu rhestru | 17 | 4 | 0 |
| C3 cysylltiad â phrosiectau/gweithgareddau lleol | 18 | 3 | 0 |
| C4 cysylltiad â mentrau CyCy lleol eraill | 15 | 6 | 0 |
| C5a CYSAG yn gallu hybu cydberthynas ymhellach | 15 | 4 | 2 |
| C5b CYSAG yn gallu hybu CyCy lleol ymhellach | 14 | 4 | 3 |

Mae'r canlyniadau yr yr adran hon yn dangos bod cysylltau cryf rhwng cysylltiadau CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a chyfranogiad CYSAG'au o weithgareddau a oedd yn ymwneud â gwahanol grwpiau ffydd yn y gymuned leol. Nododd yr holl GYSAG'au a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath beth oedd eu cysylltiadau â gwahanol grwpiau ffydd; fodd bynnag, nid oedd presenoldeb cysylltiadau o'r fath bob amser yn rhagfynegi gweithgarwch perthynol, fel y gwelir yn achos tri ChYSAG.

### 3.5. CYSAG'au a chysylltiadau â gweithgarwch rhyng-ffydd (Adran D)

***Ymwybyddiaeth o fforwm ffydd neu gyngor rhyng-ffydd lleol***

O'r 21 CYSAG, yr oedd 10 yn ymwybodol o fforwm ffydd neu gyngor rhyng-ffydd yn eu hardal leol. Yr oedd y rhain yn cynnwys y canlynol (fel y'i nodwyd gan y CYSAG'au): Cynulliad Arweinyddion Pob Ffydd, Fforwm Rhyng-ffydd Bro Morgannwg, grŵp rhyng-ffydd a oedd yn gysylltiedig ag CCHC, Fforwm Ffydd y Cymoedd, grŵp cydlyniant cymunedol yn Nhorfaen, grŵp rhyng-ffydd Casnewydd, Cyngor Rhyng-ffydd Casnewydd, grŵp rhyng-ffydd a oedd yn cyfarfod ym Mhrifysgol Morgannwg, Fforwm y Tair Ffydd, sefydliad rhyng-ffydd yng Nghaerdydd, Cristnogion ac Iddewon Caerdydd (CCJ), a Grŵp Cydlyniant Cymunedol Heddlu De Cymru. Mae'n bosibl bod rhai o'r rhain yn gyfeiriadau at yr un grŵp, er eu bod yn defnyddio gwahanol enwau.

Bu gan un CYSAG gynrychiolydd mewn digwyddiad ymgynghori a drefnwyd gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru i drafod y posibilrwydd o sefydlu grŵp rhyng-ffydd rhanbarthol newydd, ac er nad oedd hyn wedi profi'n bosibl ar y pryd, yr oedd y CYSAG yn bwriadu parhau i fod yn gysylltiedig â'r amcan hwn, fel y byddai'n briodol. Yr oedd nifer o GYSAG'au yn cydnabod nad oedd unrhyw fforwm rhyng-ffydd neu gyngor rhyng-ffydd yn bodoli yn eu hardal, ond manteisiasant ar y cyfle i dynnu sylw arbennig at fodolaeth grwpiau Cristnogol eciwmenaidd gwybyddus. Yn ychwanegol at hynny, yr oedd rhai CYSAG'au yn awyddus i bwysleisio bodolaeth nifer o grwpiau a oedd â chynrychiolwyr ffydd yn y gymdogaeth, ond nad oeddynt yn fforwm ffydd nac yn gyngor rhyng-ffydd lleol. Mae'n bosibl iawn fod hyn yn arwydd fod gan y CYSAG'au hyn ddealltwriaeth fras o'r hyn y gellir ei gynnwys fel menter rhyng-ffydd.

***Cydberthynas â fforwm rhyng-ffydd neu gyngor rhyng-ffydd lleol***

O'r 10 CYSAG a oedd yn ymwybodol o fforwm ffydd neu gyngor rhyng-ffyrdd lleol yn eu hardal leol, adroddodd 8 fod un neu ragor o aelodau'r CYSAG yn ymwneud ag o leiaf un o'r grwpiau hyn. Yn yr holl achosion hyn ac eithrio un, nid oedd yr aelodau'n cynrychioli'r CYSAG yn swyddogol, ond yr oeddynt yn hytrach yn bresennol mewn cymhwyster arall. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu nifer fechan y cynrychiolwyr sydd ar gael i GYSAG'au, a'r ffaith eu bod hefyd yn cynrychioli grwpiau eraill yn weithredol. Mae'n amlwg o'r ymatebion a roddwyd, fodd bynnag, fod CYSAG'au wedi cael budd o'r cysylltau hyn ac o dderbyn yr adroddiadau a alluogid drwyddynt.

***Gwaith gyda grwpiau 'rhyng-ffydd' ar brosiectau***

O'r 8 CYSAG a oedd â chysylltiadau ag o leiaf un o'r grwpiau hyn, adroddodd 3 eu bod wedi gweithio gyda grŵp rhyng-ffydd ar brosiect penodol. Yr oedd y prosiectau hyn yn cynnwys creu ffynhonnell o aelodau cymuned ffydd i ymweld ag ysgolion er mwyn ategu addysg grefyddol neu addoli ar y cyd; croesawu ymweliadau ag addoldai gan ysgolion; datblygu neu ddarparu gwybodaeth am wahanol grefyddau ar gyfer gwefan neu ar gyfer cyhoeddiad gan awdurdod lleol; gweithio gyda'i gilydd ar yr Ŵyl Tapestri Bywyd a Ffydd ddwyflynyddol; cymryd rhan yn Siarter Un Wrecsam; a chyfrannu at yr Wythnos Un Byd Rhyng-ffydd.

***Gwaith gyda mentrau rhyng-ffydd eraill ar brosiectau***

Gyda golwg ar y syniad ehangach o weithio ar fentrau rhyng-ffydd lleol eraill, adroddodd 4 o'r 21 CYSAG eu bod wedi gwneud hynny. Yr oedd y mentrau hyn yn cynnwys cydweithio ar y grŵp cynllunio HMD; trefnu teithiau o gwmpas addoldai lleol, a chynhyrchu DVD ynglŷn ag Anna Bergman (un o oroeswyr yr Holocost); a'r cynllunio blynyddol ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost. Mae'n bosibl iawn fod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi bod yn berthnasol i Adran C (a oedd yn canolbwyntio ar y gydberthynas â'r gymuned leol ac ar gydlyniant cymunedol), ac mae'n bosibl bod yr ymatebion yn Adran C wedi bod yn berthnasol yma hefyd. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o sut yr oedd y term 'rhyng-ffydd' yn cael ei ddehongli gan GYSAG'au yn y cyd-destun eang hwn, ac a oedd termau eraill megis 'cydlyniant cymunedol' a 'sefydlu cydberthynas berthnasol â gwahanol gymunedau ffydd' (Adran C) yn cael eu gweld yn gyffredinol fel disgrifwyr mwy naturiol o weithgareddau CYSAG'au.

***Sylwadau ar brofiadau o weithio gyda grwpiau 'rhyng-ffydd'***

O'r 21 CYSAG, darparodd 6 ChYSAG adborth ynglŷn â'u profiadau o weithio gyda chorff rhyng-ffydd lleol. O'r rhain, yr oedd gan 4 CYSAG gysylltiadau gyda grŵp rhyng-ffydd lleol ac yr oedd 2 heb gysylltiad o'r fath. Yr oedd y profiadau i gyd yn rhai cadarnhaol, a gwnaed y sylw fod un CYSAG wedi cael y partneriaethau hyn yn werth chweil ar gyfer gwaith AG mewn ysgolion, a bod cyfathrebu a chyd-ymwybyddiaeth yn galluogi cydweithio; croesawodd CYSAG arall gyfranogiad pellach o ddigwyddiadau fforwm lleol, a byddai aelodau'r CYSAG yn annog cynnal rhagor o ddigwyddiadau; yr oedd aelodau CYSAG'au a oedd yn gysylltiedig â grwpiau rhyng-ffydd yn credu eu bod yn rhai cytûn, ond yr oedd rhai aelodau'n fwy gweithgar nag eraill; yr oedd grwpiau rhyng-ffydd bob amser yn awyddus a bodlon iawn i gymryd rhan mewn unrhyw brosiectau; a buasai un CYSAG nad oedd ag unrhyw gysylltiadau gyda grŵp neu fenter rhyng-ffydd yn croesawu cysylltiad o'r fath, ond nid oedd yn ymwybodol o gorff lleol y gallai gysylltu ag ef (i berwyl cyffelyb, cafwyd y sylw fod un CYSAG yn cysylltu ar delerau personol fel rheol, ond y buasai'n croesawu cysylltiadau gyda chyrff rhyng-ffydd).

***A all CYSAG'au hybu cydberthynas â chyrff rhyng-ffydd ymhellach?***
O'r 21 CYSAG, myfyriodd 14 ar y ffyrdd y gallai eu CYSAG ddatblygu ymhellach gydberthynas â chyrff rhyng-ffydd lleol, a fyddai'n cynyddu dealltwriaeth ryng-ffydd a chydlyniant cymunedol. Nid yw'n destun syndod fod perthynas rhwng ymwybyddiaeth CYSAG'au o sefydliad rhyng-ffydd lleol a myfyrdodau ar yr hyn y gallai CYSAG'au ei wneud ymhellach yn y maes hwn. Yr oedd y 10 CYSAG a oedd yn ymwybodol o gorff rhyng-ffydd lleol i gyd yn gweld hyn fel maes i'w hybu ymhellach. Fodd bynnag, yr oedd 4 CYSAG nad oedd yn ymwybodol o gorff lleol o'r fath hefyd yn cytuno â'r gosodiad hwn.

Gan y 10 CYSAG a oedd yn gallu cael at sefydliadau rhyng-ffydd, cafwyd y sylwadau canlynol: annog bod yn agored i ganfyddiadau ac argymhellion arolwg CCYSAGauC; annog cynnwys cyrff rhyng-ffydd lleol yn y mis Dathlu AG, a chreu cysylltau cymunedol agosach ag ysgolion; penderfynu cysylltu'n ffurfiol â chyngor rhyng-ffydd lleol; a sefydlu CYSAG ieuenctid a fuasai'n darparu cyfle i bobl ifanc drafod materion perthnasol. Yr oedd y syniadau a gyflwynwyd gan y 4 CYSAG nad oeddynt yn ymwybodol o gorff rhyng-ffydd lleol yn cynnwys cysylltu'n ffurfiol â chyngor rhyng-ffydd mewn awdurdod lleol cyfagos, ac ystyried dichonolrwydd a gwerth fforwm rhyng-ffydd yn yr ardal leol (yng ngolau datblygiadau ffydd lleol diweddar a'r cyfraniad y gallai hyn ei wneud at y CYSAG ac at ysgolion lleol); a thrafod aelodaeth gyfetholedig.

***Tabl 4: CYSAG'au a chysylltiadau rhyng-ffydd lleol (N = 21)***

| *Adran D* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| D1 ymwybyddiaeth o'r fforwm/cyngor ffydd lleol | 10 | 11 | 0 |
| D2 cysylltiadau â'r fforwm/cyngor lleol | 8 | 13 | 0 |
| D3 cynrychiolaeth y CYSAG ar y fforwm/cyngor lleol | 1 | 20 | 0 |
| D4 wedi gweithio gyda grwpiau rhyng-ffydd lleol ar brosiect | 3 | 18 | 0 |
| D5 wedi gweithio gyda mentrau rhyng-ffydd lleol eraill ar brosiectau | 4 | 17 | 0 |
| D6 sylwadau ar brofiadau yn y maes hwn | 6 | 14 | 1 |
| D7 gall y CYSAG hybu cydberthynas â chyrff rhyng-ffydd lleol ymhellach | 14 | 6 | 1 |

### 3.6. Sylwadau ychwanegol
O'r 21 CYSAG, cynigiodd 9 sylwadau ychwanegol pan wahoddwyd hwy i wneud hynny ar ddiwedd yr holiadur. Ailadroddwyd dau brif bwynt gan nifer o GYSAG'au. Yn gyntaf: y gydnabyddiaeth ei bod yn bosibl fod gwaith da yn y maes hwn yn digwydd yn ardal yr Awdurdod Lleol ond nad oedd y CYSAG yn ymwybodol ohono neu'n cymryd rhan uniongyrchol ynddo. Felly, ni fuasai cynnwys yr arolwg yn adlewyrchu cyfanrwydd gwaith yr Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Yn ail: y gydnabyddiaeth fod y grwpiau ffydd a gynrychiolid mewn poblogaethau lleol yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar eu lleoliad yng Nghymru. Yr oedd hyn yn cael effaith hefyd ar bresenoldeb fforymau rhyng-ffydd. Felly, yr oedd CYSAG'au mewn rhai rhannau o Gymru'n gynrychiadol o'u hardal leol, hyd yn oed os nad oedd hyn yn cynnwys mathau eraill o ffydd yn ogystal ag enwadau Cristnogol.

### 3.7. Crynodeb o'r canlyniadau

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos sut mae CYSAG'au yng Nghymru yn cynrychioli eu cymunedau lleol ac yn ymwneud â hwy, a sut mae hyn yn sail i'w gwasanaeth o fonitro ac ategu'r ddarpariaeth o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn ardaloedd eu Hawdurdodau Lleol. Drwy beidio â chyfyngu'r arolwg i ymchwiliad i gydberthynas CYSAG'au â fforymau ffydd a chynghorau rhyng-ffydd lleol yn unig (mae cymharol ychydig o'r rhain yng Nghymru, ac maent yn dibynnu ar ddemograffeg ranbarthol), enillwyd ymwybyddiaeth lawnach o'r amrywiaeth o weithgareddau CYSAG sy'n cyfrannu at agweddau perthnasol ar gydlyniant cymunedol, drwy gynnwys yr enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill sy'n bresennol yn eu cymdogaethau.

Gwnaeth yr arolwg wyth o brif ganfyddiadau.

1. Yr oedd y rhan fwyaf o'r CYSAG'au yn argyhoeddedig fod Pwyllgor A yn cynrychioli'r enwadau Cristnogol a'r crefyddau eraill yn eu hardal leol yn briodol. Lle nad oedd enwadau Cristnogol neu grefyddau penodol yn cael eu cynrychioli ar Bwyllgor A oherwydd y demograffeg leol, buasai CYSAG'au yn defnyddio dulliau eraill i dynnu unigolion o'r grwpiau hyn i mewn i weithgareddau'r CYSAG'au. Yr oedd hyn yn cynnwys defnyddio aelodaeth gyfetholedig, seddau mewn cynadleddau ar faes llafur cytûn, neu wahoddiadau i gyfarfodydd CYSAG er mwyn gwneud mewnbwn penodol.

2. Yr oedd rhai CYSAG'au yn cael problemau o ran sicrhau cynrychiolaeth briodol ar Bwyllgor A. Yr oedd y problemau hyn yn cynnwys canfod corff addas i gynnig cyngor ar faterion cynrychiolaeth (yn aml, er nad ym mhob achos, yr oedd hyn yn ymwneud â chrefyddau eraill yn hytrach nag enwadau Cristnogol).

3. Adroddodd oddeutu traean o'r CYSAG'au fod ganddynt gysylltiadau ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn yr ardal leol. Nododd bron y cyfan o'r CYSAG'au fod aelodau Pwyllgor A yn bobl gyswllt bwysig ar gyfer y grwpiau yr oeddynt yn eu cynrychioli, ac yr oedd gan dros hanner y CYSAG'au, yn ogystal, gysylltiadau a oedd y tu allan i aelodaeth y CYSAG. Enwyd CCYSAGauC fel un o nifer o sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol a oedd yn darparu cyfleoedd sylweddol i GYSAG'au wneud cysylltiadau ehangach.

4. Nododd CYSAG'au amrywiaeth eang o wahanol fathau o weithgarwch a oedd wedi cynnwys enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn yr ardal leol. Yn y cyd-destun hwn, yr oedd dros dri chwarter o'r CYSAG'au wedi cymryd rhan mewn prosiectau a oedd yn cynnwys enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill. Yr oedd rhai o'r rhain yn fentrau gan GYSAG'au, ac eraill yn weithgareddau yr oedd CYSAG'au yn eu cefnogi mewn amrywiol ffyrdd.

5. Yr oedd cyswllt cryf rhwng cysylltiadau CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a chyfranogiad CYSAG'au o weithgareddau a oedd yn cynnwys gwahanol grwpiau ffydd yn y gymuned leol.

6. Awgrymodd oddeutu tri chwarter o'r CYSAG'au ffyrdd y gallent hybu ymhellach eu cydberthynas ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill yn eu hardal leol. Awgrymodd tua'r un nifer ffyrdd y gallent hybu cydlyniant cymunedol ymhellach yn eu hardal leol.

7. Yr oedd ychydig o dan hanner y CYSAG'au yn ymwybodol o fforwm ffydd neu gyngor rhyng-ffydd yn eu hardal leol. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, yr oedd aelodau'r CYSAG yn ymwneud ag o leiaf un o'r cyrff hyn; dim ond yn anaml iawn, fodd bynnag, yr oedd gan GYSAG gynrychiolaeth swyddogol. Yr oedd yr ymatebion yn dangos bod CYSAG'au yn gwerthfawrogi cysylltiad eu haelodau â'r grwpiau hyn ac yn cael budd ohono. Dim ond ychydig o GYSAG'au, fodd bynnag, a oedd wedi gweithio ar brosiectau penodol ar y cyd â fforwm ffydd neu gyngor rhyng-ffydd yn eu hardal leol.

8. Awgrymodd oddeutu tri chwarter o'r CYSAG'au ffyrdd y gallent ddatblygu ymhellach eu cydberthynas â chyrff rhyng-ffydd lleol er mwyn datblygu dealltwriaeth ryng-ffydd a chydlyniant cymunedol, gan fanylu ar nifer o brosiectau a gweithgareddau i'r dyfodol.

# 4 Y CAMAU NESAF

## 4.1 Cyflwyniad

Mae'r arolwg wedi mapio'r cydberthnasau rhwng CYSAG'au a'u cymunedau lleol drwy edrych ar bedwar maes perthnasol:

- Cynrychiolaeth CYSAG'au ar Bwyllgor A (Enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau);
- Cynrychiolaeth gyfetholedig ar GYSAG'au;
- Cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol ac â chrefyddau eraill a'u henwadau;
- Cysylltiadau CYSAG'au gyda sefydliadau rhyng-ffydd lleol a mentrau rhyng-ffydd lleol eraill.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos amrywiaeth y gweithgareddau mewn CYSAG'au yng Nghymru sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol a dealltwriaeth rhyng-ffydd. Mae'r CYSAG'au hynny o'r farn fod y gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at eu gwaith gydag ysgolion lleol. Bu brwdfrydedd ac ymrwymiad llawer o GYSAG'au ynglŷn â datblygu cydberthnasau perthnasol â grwpiau 'rhyng-ffydd' lleol yn eglur. Mae canlyniadau'r arolwg wedi dangos hefyd rai o'r anawsterau a wynebwyd gan GYSAG'au, gyda golwg arbennig ar sicrhau rhai mathau o gynrychiolaeth.

Mae'r adroddiad ar yr arolwg 'CYSAG'au a'r Gymuned Leol' yn galluogi CYSAG'au i rannu eu profiad a'u hymarferiad yn y maes hwn ac (mewn ymateb) i fyfyrio ar eu hymarferiad eu hunain. Er mwyn hwyluso ymatebion i'r adroddiad hwn, gwneir nifer o argymhellion i GYSAG'au yng Nghymru ac i GCYSAGauC.

## 4.2. Argymhellion i GYSAG'au

I GYSAG'au yng Nghymru, yr argymhellion yw:

- derbyn yr adroddiad ar yr arolwg 'CYSAG'au a'r Gymuned Leol';
- ystyried argymhellion yr Adroddiad;
- penodi gweithgor i gyflwyno adborth i'r CYSAG ar oblygiadau'r Adroddiad.

Gan ddefnyddio'r adroddiad fel man cychwyn, efallai y bydd gweithgorau CYSAG yn dymuno trafod:

- cynrychiolaeth ar Bwyllgor A;
- cyfetholiadau i'r CYSAG;
- cysylltiadau a gweithgareddau'r CYSAG ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill;
- cysylltiadau a gweithgareddau'r CYSAG gyda sefydliadau rhyng-ffydd lleol;
- agweddau eraill ar waith y CYSAG sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol a mentrau rhyng-ffydd.

## 4.3 Argymhellion i GCYSAGauC

I GCYSAGauC, yr argymhellion yw:

- rhoi cyhoeddusrwydd i ganfyddiadau'r Adroddiad;

- cysylltu â chyrff rhyng-ffydd neu grwpiau ffydd yng Nghymru a gydnabyddir yn genedlaethol, gyda golwg ar roi gwybod i GYSAG'au ymhle y dylent ymofyn cyngor ynglŷn â sicrhau cynrychiolaeth addas;
- parhau i gynnig cyflwyniadau sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol, yng nghyfarfodydd CCYSAGauC;
- parhau i hybu mentrau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol;
- parhau i ddarparu cynrychiolwyr CCYSAGauC ar fforymau a phwyllgorau sy'n gweithio yn y maes hwn;
- trafod diweddaru'r cyhoeddiad, *Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol... : llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAG'au yng Nghymru* ;
- trafod sut y gall adnoddau'r prosiect AtGyfnerthu barhau i chwarae rôl mewn ysgolion yng Nghymru.

## ATODIAD 1 Canlyniadau meintiol coladol

**Tabl 1: Cynrychiolaeth CYSAG ar Bwyllgor A (N = 21)**

| *Adran A* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| A1 nodwyd cynrychiolwyr | 21 | 0 | 0 |
| A2 problemau o ran sicrhau cynrychiolaeth | 16 | 4 | 1 |
| A3 Pwyllgor A yn gynrychiadol o'r ardal | 15 | 6 | 0 |

**Tabl 2: Cynrychiolaeth gyfetholedig**

| *Adran B* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| B1 Aelodau cyfetholedig ar y CYSAG | 15 | 6 | 0 |
| B2 aelodaeth gyfetholedig yn addas ar gyfer yr ardal | 20 | 1 | 0 |

**Tabl 3: Cydberthynas CYSAG'au ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill (N = 21)**

| *Adran C* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| C1 cysylltiadau yn yr ardal leol wedi eu rhestru | 20 | 1 | 0 |
| C2 cysylltiadau y tu allan i'r ardal leol wedi eu rhestru | 16 | 5 | 0 |
| C3 cysylltiadau â phrosiectau/gweithgareddau lleol | 17 | 4 | 0 |
| C4 cysylltiadau â mentrau CyCy lleol eraill | 14 | 7 | 0 |
| C5a CYSAG yn gallu hybu cydberthynas ymhellach | 15 | 4 | 2 |
| C5b CYSAG yn gallu hybu CyCy lleol ymhellach | 13 | 5 | 3 |

**Tabl 4: CYSAG'au a chysylltiadau rhyng-ffydd lleol (N = 21)**

| *Adran D* | *ie* | *na* | *?* |
|---|---|---|---|
| D1 ymwybyddiaeth o'r fforwm/cyngor ffydd lleol | 10 | 11 | 0 |
| D2 cysylltiadau â'r fforwm/cyngor lleol | 8 | 13 | 0 |
| D3 cynrychiolaeth y CYSAG ar y fforwm/cyngor lleol | 1 | 20 | 0 |
| D4 wedi gweithio gyda grwpiau rhyng-ffydd lleol ar brosiect | 3 | 18 | 0 |
| D5 wedi gweithio gyda mentrau rhyng-ffydd lleol eraill ar brosiectau | 4 | 17 | 0 |
| D6 sylwadau ar brofiadau yn y maes hwn | 5 | 15 | 1 |
| D7 gall y CYSAG hybu cydberthynas â chyrff rhyng-ffydd lleol ymhellach | 14 | 6 | 1 |

O'r 21 CYSAG, cynigiodd 9 sylwadau ychwanegol pan wahoddwyd hwy i wneud hynny ar ddiwedd yr holiadur.

## ATODIAD 2 Rhestr o'r CYSAG'au yng Nghymru a gymerodd ran

Ynys Môn
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam

**ATODIAD 3 Yr Holiadur: CYSAG’au a'r Gymuned Leol**

# CYSAGau a'r Gymuned Leol

# Arolwg o GYSAGau

Mae'r arolwg hwn yn cael ei anfon at holl GYSAGau Cymru gan GCYSAGauC. Nod yr arolwg yw cael at wybodaeth ynglŷn â chynrychiolaeth CYSAG’au ar Bwyllgor A (enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau), cynrychiolaeth gyfetholedig, cydberthynas CYSAGau ag enwadau Cristnogol ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, a chysylltiadau CYSAGau â sefydliadau rhyng-ffydd lleol ag â mentrau rhyng-ffydd lleol eraill.

Ar sail eich ymatebion, bydd CCYSAGauC yn cynhyrchu adroddiad sy'n mapio'r gydberthynas rhwng CYSAGau a'u cymunedau lleol, gyda'r nod o goladu a rhannu gwybodaeth, profiadau, ac arferion.
A fuasech cystal â dychwelyd yr arolwg, ar ôl ei gwblhau, i Tania ap Siôn, Ysgrifennydd CCYSAGauC, drwy e-bost neu’r post erbyn **20 Gorffennaf 2010**:

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Cyfeiriad:
Tania ap Siôn
Canolfan y Santes Fair
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd, LL33 0LD

## Beth yw enw eich CYSAG:

**ADRAN A**
Mae'r cwestiynau yn ADRAN A yn ymwneud â chynrychiolwyr CYSAGau ar Bwyllgor A (h.y. cynrychiolwyr enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau, sy'n adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol eich ardal).

1. Pa enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau, a gynrychiolir ar eich CYSAG? (cynhwyswch nifer y lleoedd sydd wedi eu dyrannu i bob grŵp)

2. A yw eich CYSAG wedi cael unrhyw broblemau o ran sicrhau cynrychiolaeth briodol i enwadau Cristnogol ac i grefyddau eraill a'u henwadau?

   YDYW / NAC YDYW
   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

3. A yw eich CYSAG yn fodlon fod ei aelodaeth yn adlewyrchu'n briodol yr enwadau Cristnogol perthnasol, a'r crefyddau eraill a'u henwadau, a geir yn eich ardal chi?

   YDYW / NAC YDYW
   Os NAD YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**ADRAN B**
Mae'r cwestiynau yn ADRAN B yn ymwneud â chynrychiolwyr cyfetholedig CYSAGau.

1. A oes gennych unrhyw gynrychiolwyr cyfetholedig ar eich CYSAG?

   OES / NAC OES
   Os OES, rhestrwch y cyrff/sefydliadau y maent yn eu cynrychioli os gwelwch yn dda.

2. A yw eich CYSAG yn fodlon fod ei gynrychiolaeth gyfetholedig yn addas ar gyfer CYSAG yn eich ardal chi?

   YDYW / NAC YDYW (Os NAD YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda).

**ADRAN C**
Mae'r cwestiynau yn ADRAN C yn ymwneud â chydberthynas CYSAGau ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal.

1. Rhestrwch y cysylltiadau y mae gan eich CYSAG ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal.

2. Rhestrwch unrhyw gysylltiadau y mae gan eich CYSAG ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, y tu allan i'ch ardal.

3. A yw eich CYSAG wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau neu weithgareddau sydd wedi cynnwys enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal?

   YDYW / NAC YDYW
   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

4. A yw eich CYSAG wedi cymryd rhan mewn unrhyw fentrau eraill sy'n hybu agweddau perthnasol ar gydlyniant cymunedol yn eich ardal?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

5. A oes unrhyw beth pellach y gallai eich CYSAG ei wneud i hybu:

   (a) cydberthynas berthnasol a chynhyrchiol ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal?

   OES / NAC OES
   Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

   (b) agweddau perthnasol ar gydlyniant cymunedol yn eich ardal.

   OES / NAC OES
   Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

**ADRAN D**
Mae'r cwestiynau yn ADRAN D yn ymwneud â chydberthynas eich CYSAG â sefydliadau rhyng-ffydd lleol, a'i gysylltiad â mentrau neu brosiectau rhyng-ffydd lleol eraill.

1. A ydych yn ymwybodol o fforwm crefyddau lleol neu gyngor rhyng-ffydd sy'n dod ag aelodau o'r crefyddau pwysicaf yn eich ardal at ei gilydd? (hynny yw, y 'prif' gorff rhyng-ffydd lleol — pan fo un yn bodoli — sydd fel rheol yn rhyw fath o gyngor neu fforwm).

   YDYM / NAC YDYM
   Os YDYCH, beth yw ei enw/au?

2. A oes unrhyw aelodau o'ch CYSAG yn cymryd rhan yn y grŵp hwn/grwpiau hyn?

   OES / NAC OES
   Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

3. A yw eich CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y grŵp hwn/grwpiau hyn?

   YDYW / NAC YDYW
   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

4. A yw eich CYSAG wedi gweithio gydag un neu ragor o grwpiau rhyng-ffydd lleol ar brosiectau penodol?

   YDYW / NAC YDYW
   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

5. A yw eich CYSAG wedi gweithio gydag unrhyw fentrau rhyng-ffydd lleol eraill ar brosiectau penodol?

   YDYW / NAC YDYW

Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar brofiadau eich CYSAG yn y maes hwn — er enghraifft, profiad o weithio ar y cyd â'r corff rhyng-ffydd lleol (neu â mentrau rhyng-ffydd lleol eraill) — neu, yn yr un modd, o **fethu** â gweithio ar y cyd neu sefydlu dull cysylltu boddhaol a chyd-ymwybyddiaeth?

7. A oes unrhyw beth pellach y gallai eich CYSAG ei wneud, ynglŷn â'i gydberthynas â chyrff rhyng-ffydd eraill, a fyddai'n cynyddu dealltwriaeth rhyng-ffydd a chydlyniant cymunedol?

   OES / NAC OES
   Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr ydych yn dymuno'u gwneud?

DIOLCH AM GYMRYD RHAN YN YR AROLWG HWN.

## ATODIAD 4: Rhestr derbynyddion

*Y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru*
*(Cadeiryddion y CYSAG'au ac Arweinyddion y Cynghorau):*
Ynys Môn
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam

*Llywodraeth Cymru:*
Prif Weinidog Cymru
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

*Cyrff Rhyng-ffydd:*
Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU
Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Fforwm Ffydd y Cymoedd

*Cyrff Ffydd Cenedlaethol*
Undeb Bedyddwyr Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru (Addysg)
Cytûn
Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Yr Eglwys Fethodistaidd (Synod Cymru)
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru (Addysg)
Undeb Annibynwyr Cymru
Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (Synod Cymru)

*Y sector Addysg Uwch:*

Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru
Canolfan Addysg Athrawon De Cymru
Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon

*Sefydliadau eraill:*
Estyn
Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol (EFTRE)
Y Comisiwn Rhyng-Ewropeaidd ar Eglwys ac Ysgol (ICCS)
Y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG)
Cymdeithas Genedlaethol CYSAG'au (NASACRE)
Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC)
Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr (CAG)

Wales Association of SACREs
Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Cyfarfod CCYSAGauC, Merthyr Tudful, 23 Tachwedd 2012, 10.30am-3pm**

**Wales Association of SACREs meeting, Merthyr Tydfil, 23 November 2012, 10.30am-3pm**

Draft

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas<br>Eurfryn Davies<br>Bethan James<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Christine Abbas<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans<br>Dhira Bhakta Dasa<br>Carys Pritchard<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas<br>Michael Gray<br>Enfys Hawthorn<br>Helen Bartley<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Carys Pritchard<br>David Kitchen<br>Katherine Mayer<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Meinir Wynne Loader<br>Valerie Davies<br>Aled Jones<br><br>**Ceredigion**<br><br>**Conwy**<br>Phil lord | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br><br>**Gwynedd**<br>Nicholas Richter<br>W M Meredith<br>Bethan James<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>J Symes<br>Ernie Galsworth<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Sue Cave<br>Sharon Perry-Phillips<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br>Jen Malcolm<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas<br>Tracey Pead<br>P.T. Williams<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Huw M. George<br><br>**Powys**<br>John Mitson | **Rhondda Cynon Taf**<br>Gethin Rhys<br>Carys Pritchard<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Janet Neilson<br>Vicky Thomas<br>Claire Fraser<br>Lynda Maddock<br><br>**Torfaen**<br>Vicky Thomas<br>Margaret Oelmann<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Carys Pritchard<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Leslie Francis (Canolfan y Santes Fair / St Mary's Centre)<br>Jonathan Martin (Merthyr Tydfil College)<br>Andrew Morton (FE Chaplaincy) |

1. **Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome-***
   Madame Mayor, Lisa Mytton, welcomed members to Merthyr Tydfil. She thanked WASACRE for the support and guidance it provides to local SACREs and gave recognition to the role of WASACRE as the voice of SACREs in Wales. Chair, Edward Evans, extended a special welcome to Twynyrodyn Primary school and thanked them for their presentation on the Golden Rule and echoed their message- 'It starts with me.'

2. **Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection-***
   The Chair spoke about the courage of solo sailors and what inspires them to do it. Would we have the courage?

3. **Ymddiheuriadau / *Apologies*** Cllr Graham Davies, Mary Parry, Tudor Thomas, Rameez Delpak, Gill Vaisey, Helen Gibbon, Cllr Kate Moran, Cllr J. Dudley, Gwyn Rogers, Dafydd Treharne

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llandudno Junction, 26 Mehefin 2012**
   ***Minutes of meeting held in Llandudno Junction, 26 June 2012-***
   Minutes were accepted as true record of the meeting. The correct Attendees list from the meeting was distributed.

5. **Materion sy'n codi / *Matters arising***
   Item 8 of Item 5. Matters arising- Examination data- Carys Pritchard confirmed that the national picture is not available until May 22nd. This raises an issue for SACREs in comparing the LA figures with national figures. NAPfRE proposes a request to Welsh Government for SACREs to have access to the data earlier. It was decided that this will be a joint letter with WASACRE-
   Item 6. Collective Worship document- Libby Jones confirmed that the Collective Worship guidance document has been sent out electronically to all SACREs and is available bilingually on the WASACRE website. As proposed by Vicky Thomas Estyn will also receive a copy of the Collective Worship document.
   Item 7. SACREs survey report- Libby Jones confirmed that the report had been sent out electronically to all SACREs and all other recipients listed in the report.

6. **Cyflwyniad gan PYCAG/*NAPfRE presentation:***

   Addysg Bellach: Caplaniaeth ac Addysg Grefyddol/ *Further Education: religious education and chaplaincy (Jonathan Martin and Andrew Morton )*

Jonathan showed members a bilingual powerpoint presentation on the College Merthyr Tydfil, which will become a tertiary college from September 2013. He confirmed that the new college curriculum will offer A/AS level qualifications in Religious Studies and that all pupils will have an RE element to their education, through RE within the Welsh Baccalaureate qualification in tutorials.

Andrew began by offering a Welsh copy of his own presentation to those who required one, to be arranged via email. He confirmed that there is a strong chaplaincy presence in FE colleges in Deeside, locally around Merthyr and in many other areas of Wales. However, there are some areas that do not have chaplaincy within FE at all. Andrew welcomed this opportunity to bring the FE agenda to WASACRE and noted

that there is no designated person in Wales with the responsibility of moving this forward. Andrew sign-posted members to the booklet *Challenging Voices* and asked members to contact him if they know of any colleges which need further information about Chaplaincy in FE.  Rheinallt Thomas raised the point that SACREs also have a responsibility for the FE sector and not just the school sector. Members agreed to take this back to their individual SACREs, to make it an agenda item and to push this issue of the need for Chaplaincy in FE colleges across Wales. Phil Lord raised the question of whether there are many instances of co-opted members of local SACREs from FE. Merthyr, Cardiff and Wrexham do have this provision. The Chair proposed that SACREs consider appointing a member from FE.

***6.*** **Addroddiad Cyngor AG /** ***RE Council Report-*** *Tania ap Sion presented.*

Tania's presentation concentrated on 4 areas-

1st Area- publication of the guidance booklet *Challenging Voices* as a resource for FE colleges, in handling contentious issues with post 16 - this is a continuation of the REsilience project.
2nd Area- Representation of Wales on the REC Board- WASACRE was invited to offer two nominations to REC. Two names were put forward from the WASACRE Executive  meeting in October, Gavin Craigen and Tania ap Sion. It is hoped that by the WASACRE Executive meeting in February the REC Board will have accepted the nominations. Members agreed that this is a positive step forward and endorsed the proposed representatives for REC.
3rd Area- Tania attended the launch of the APPG (All Party Parliamentary Group) in the House of Commons in June 2012. The APPG has been established in England to support and fight for the position of RE in the school curriculum in England. The English Baccalaureate is viewed as a serious threat to RE. One of the roles of the APPG is to conduct an enquiry about the supply and support of RE teachers. This is to be sent out to all organizations concerned with RE. A call has been made for evidence that can be presented to the Government and a questionnaire has been sent out. Other possible evidence is research findings, personal experiences and case studies. It is an England issue in many ways and is centered on the affect it is having on RE in England. Our question is what we can do to help? There are two possible contributions. 1. The presentation by Leslie Francis at the 2012 WASACRE AGM looked at data from the Welsh perspective on religious diversity. Data from England only could also be made available. 2. It was proposed that WASACRE write a letter to describe the support we have from the Welsh Government for RE and stating our concern at what is happening in England. Tania proposed that WASACRE includes in the letter our support for the enquiry. Members agreed that a letter should be sent on the condition that our colleagues in England think it would be useful and not detrimental.
4th Area. – RE subject review. England is currently undergoing a curriculum review. The RE council has been asked by the Government to conduct the RE review, which has to be complete by September 2013. They have identified areas e.g. aims, good practice and assessment and qualifications. Tania confirmed that the has has looked at RE being omitted from the EBACC and has expressed its concerns. Rheinallt Thomas confirmed that there is feedback available maintaining that there is a deficiency in the EBACC, because it does not include RE. Vicky Thomas raised the point that there is also an intention to carry out a

Draft

curriculum review in Wales and urged WASACRE to consider this issue and the huge implications it has on RE. The Chair agreed to agenda this issue at the next Executive meeting in February.

7. **Gohebiaeth /*Correspondence*** There was no correspondence that was not discussed elsewhere in the meeting

8. **Cyflwyniad gan PYCAG/ *NAPfRE presentation:***

Addysg Grefyddol yn y sector Addysg Uwch */ Religious Education in the Higher Education sector (Lynda Maddock and Sue James)*

The first presentation covered the Primary PGCE RE provision at University of Wales Trinity St David Swansea Metropolitan, on behalf of Sue James. The presentation focused on the subsequent changes to the provision for 2012/13 following the revalidation of the Primary PGCE, which took place summer 2012. Information on the following 5 areas was shared:

1. Course structure - Due to students spending more time on school-based placement RE sessions have been reduced to 4.5 hours from 12 and with only the possibility of a visit to a place of worship.
2. Course aims – These are: to explore RE in the curriculum, to express a range of different world religions through story, to engage with a range of pedagogic strategies which facilitate learning- through RE.
3. RE programme - This is now condensed into 3 sessions from a previous total of 8 sessions. These are: Session 1- Introduction to RE within the curriculum. Session 2- scaffolding and modeling through RE. Session 3- Active Learning in curriculum context.
4. Assessment procedures – Within this was described a portfolio of 5 separate tasks and a presentation identifying opportunities for skills development in a cross-curricular unit of work, which could be in RE (optional).
5. Hope for the future – This included: promotion of RE, collaboration with Secondary schools and continuing professional development.

Phil Lord shared his concern that there is no time for students to become familiar with the 3 RE skills: ‘engage’, ‘explore’ and ‘express’, and their importance and inter-connectedness. Lynda confirmed that students are asked to do their own research and study to enhance their own teaching and performance. Other questions raised were: if every teacher is a teacher of Literacy and Numeracy, where does this leave RE? Can teachers come back to Swansea Met to ‘up-skill’? Lynda confirmed that the later is not currently available to teachers, but has been discussed within the professional development portfolio.

The second presentation focused on the RE PGCE (Secondary) and covered the following areas:

1. Entry requirement.
2. The interview process.
3. Subject knowledge audit.
4. Funding and target numbers.
5. Course details including content.

Draft

6. School based experience.
7. Assessment.

Ben Wigley raised concern that academy schools in England employ teachers who do not have Qualified Teaching Status (QTS) and the possibility that students will go over the border to avoid having to pay for a PGCE in Wales. Also, some academy schools do not teach RE.

Vicky Thomas thanked Lynda for her presentations and for her work and emphasized that there are lots of good RE departments in Wales that can help with training our new teachers and work with PGCE providers.

**10. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2012 / *Report from the Executive Committee held on 16 October 2012***

The Executive Committee meeting report was presented to members for information.

All members present agreed that Mary Parry should be nominated as the EFTRE representative for WASACRE

**11. Newyddion diweddar/*Update:***

(a) Adolygiad thematig (Estyn)/ *Thematic review (Estyn)*
This was presented by Tania ap Sion.
Context: This was introduced in response to WASACRE's proposal to the Minister in 2010. Changes to the Estyn Inspection would impact on RE and WASACRE pushed for it to be included in the thematic review process. A number of representatives from WASACRE met with Mark Campion (who is leading the thematic review of RE at Estyn) in October 2012. Tania gave a summary to members of the significance of this meeting with Estyn for WASACRE and Religious Education in Wales:
1. The importance of RE being included in the thematic review process. It is rare for a 'subject' to be included in this way.
2. The recognition by Welsh Government and Estyn that WASACRE is a significant national voice for RE in Wales.
3. The significance of WASACRE being consulted and being able to make a difference in areas which affect RE in Wales.
4. The significance of the presence of Estyn and Leighton Andrews at the WASACRE national conference being arranged for autumn 2013, which raises the profile of RE.

Ann Loader expressed concern that one of the inspectors is not a subject specialist. Vicky Thomas confirmed that Mark Campion has offered to send a list of the schools involved in the process and that this should be followed up. Tania ap Sion emphasized that Mark Campion (who is leading the thematic review) is a subject specialist. Rheinallt Thomas commented on the points made relating to the significance and purpose of WASACRE demonstrated by the thematic review process, and emphasized that this is an indication that WASACRE is a very important body for RE in Wales and it achieves a great deal for RE. Members were asked to share this with their individual SACREs.

Draft

The Chair thanked the WASACRE representatives who were involved in the visit to Estyn in October 2012 (Tania ap Sion, Gavin Craigen, Libby Jones, Mary Parry, Vicky Thomas – as well as Bethan James and Carys Pritichard for their input prior to the meeting).

(b) Safoni CA3/ *KS 3 Moderation*
Libby Jones presented a powerpoint on behalf of Gavin Craigen outlining the key messages from the Chief Moderator's report, following the completion of the KS3 moderation process. It was suggested that a course could be offered to teachers across Wales through WASACRE, focussing on developing an understanding of the process of assessing pupils' progress in Religious Education. This would help raise standards across Wales and assist teachers and departments in implementing the Chief Moderator's recommendations. The Chair proposed the endorsement of the training offered by Gavin Craigen All members agreed. Libby and Gavin will consult as appropriate to make arrangements for this, and the Treasurer, John Mitson, would be sent proposed costings.

(c) REQM/ *Religious Education Quality Mark*
Phil Lord reported his experience of the REQM training and summarised NAPfRE's recommendations. Levels of award available are Bronze, Silver and Gold. The Bronze is a sign of a very good department, the silver and gold being more aspirational (possibly sector leading practice). Specific criteria can be found on the REQM website. It will cost £475.00 for a school to go for the award. Some, but not many, changes would need to be made to the current English criteria. After making the appropriate changes to make it suitable for use in Wales, NAPfRE proposes that the REQM is piloted in Wales and the results would be presented to WASACRE so that an informed decision may be made. A member raised the question of the need for this award and expressed concern that teachers are under enough pressure. The importance of departments concentrating on providing and delivering exciting RE, rather than trying to achieve the quality mark was also expressed. Phil Lord assured members that an integral part of the REQM is to drive up standards throughout the school. Chair of NAPfRE, Bethan James, told members that she had been persuaded by the benefit of the REQM, having first been skeptical. Due to the Estyn inspection reports having no mention of RE, this could be one way of highlighting the high standards of a department. With advisory services diminishing this could also help with sharing good practice and identifying departments that can support struggling schools in their area.

It was suggested that participation should be the choice of individual RE departments and not a school or head teacher placing pressure on them. Phil confirmed that he is now an accredited assessor for the REQM and he would waiver his fee in order to go ahead with the pilot. Vicky Thomas assured members that the REQM was 'Light Touch' (Mary Myatt's words - REQM) unlike Estyn and heavily reliant upon pupil voice. The question was also raised who is it for? Pupils, head teachers, parents? Carys Pritchard raised the point of only continuing with this on the confirmation that it fits in and works with the Wales RE curriculum. A vote was taken and a majority voted for it to be piloted in Wales.

12. Arddangos adnoddau AG /
*Showcase of RE resources*

Draft

Ben Wigley- REMW, and the publication *RE ideas.*

**13. U.F.A. / *A.O.B.***

Rheinallt Thomas – There has been an announcement of an Education Review with the possibility of removing the responsibility from the LA for Education. Findings will be available in March 2013. Rheinallt Thomas shared the letter he had written on behalf of the Presbyterian Churches in Wales, asking about the implications of this for the local determination of RE which is set out in the Education Act. The response Rheinallt received stated that they have received his letter, and he proposed that WASACRE should send a similar letter to ask for information and to lodge concern. It was decided that a letter would be sent to the Minister for Education, raising this issue. Michael Gray thanked Rheinallt for the raising the issue and supported Rheinallt's proposal. It was agreed to put this on the agenda for the next Executive meeting and members were asked to take this back to their SACREs. Members expressed concern about the threat to the richness and balance that we get from local counsellors if education was taken from LAs.

**14. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting**

22nd March in Newport

19th June in Caernarfon

The Chair thanked all presenters; Jonathan Martin, Andrew Morton, Lynda Maddock, Twynyrodyn Primary school, Carys Pritchard (Systems Leader for Merthyr), Merthyr Clerk to SACRE Karen Vokes, and Madame Mayor Lisa Mytton.

Draft

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC/**
***Nominations to WASACRE Executive Committee***

**2013**

**ENW CYSAG / SACRE NAME:**

| **Enwebiad / Nomination** | **Enw / Name** | **Cyfeiriad e-bost/ E-mail address** |
|---|---|---|
| Pwyllgor gwaith 1/ Executive Committee 1 | | |
| Pwyllgor Gwaith 2/ Executive Committee 2 | | |
| Is-gadeirydd / Vice Chair | | |